RHWYDWAITH

AMGYLCHEDDOL

SIR BENFRO

CYFARWYDDIADUR DATBLYGU CYNALIADWY: POLISI A GWEITHREDU

Cyhoeddwyd gan
Rhwydwaith Amgylcheddol Sir Benfro
gyda chefnogaeth Amgylchedd Cymru

Argraffiad Cyntaf: Rhagfyr 2010
Rhif cwmni 6329045 www.tenp.org.uk

RHAGAIR:

Hoffwn longyfarch RhASB (Rhwydwaith Amgylcheddol Sir Benfro) am gynhyrchu'r Cyfarwyddiadur hwn a fydd, dwi'n siŵr, o gymorth i oleuo a phrocio trafodaeth ynglŷn â'r modd y mae'n bosib bwrw ati i greu cymdeithas gynaliadwy.

Mae'r ymadrodd 'Datblygu Cynaliadwy' ei hun yn un sy'n denu cryn dipyn o rethreg ac mae'n ymadrodd y gellir yn hawdd ei 'herwgipio'. Cyflwyna'r Cyfarwyddiadur hwn Pum Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a rhaid gweithredu pob un o'r pump mewn polisi a gweithred os ydym am greu dyfodol cynaliadwy a llewyrchus.

Gallwn ymfalchïo yn ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru ond mae'r dasg o droi'r ymrwymiad hwnnw yn wirionedd yn her sydd wedi'i chofnodi'n gyson gydol y cyfarwyddiadur hwn. Mae'r cyfarwyddiadur yn ffynhonnell gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch polisïau a rhaglenni cyfredol, enghreifftiau o wireddu yn ogystal â pheth sylwadau cryno a fydd o gymorth wrth fwrw ati i gyflawni. Dyma enghraifft o fudiad cymunedol cryf sy'n ymboeni am ddyfodol tymor hir eu sir.

Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy Cymru

Cadeirydd Comisiwn Newid Hinsawdd Cymru

Peter Davies

D.S. Nid yw'r farn a fynegir yn y sylwadau o reidrwydd yn farn y byddai Peter Davies yn ei gefnogi ond cred bod y sylwadau yn gyfraniad pwysig i drafodaeth dryloyw ynghylch y ffyrdd y mae angen i ni sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn rhan o bob haen o Lywodraeth.

CYDNABYDDIAETH:

Dymuna RhASB ddiolch i Amgylchedd Cymru am ddarparu'r cyllid ar gyfer argraffu'r Cyfarwyddiadur am iddo fod yn fodd i'n sbarduno i gwblhau'r hyn a oedd yn ddim mwy na 'gwaith ar y gweill'.

Rydym hefyd am ddiolch i swyddogion Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, Canolfan ECO Gorllewin Cymru, Amgylchedd Cymru a Rhwydwaith Gweithredu Menter a Datblygiad sydd, fel aelodau o'n Grŵp Cynghori, wedi cefnogi a llywio ein gwaith.

Yn olaf hoffwn ddiolch i swyddogion Cyngor Sir Penfro, Parc Cenedlaethol Arfordirol Penfro a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am ymateb i'n hymholiadau am wybodaeth.

CYNNWYS:

Cyflwyniad

Datblygu Cynaliadwy

Amgylchedd

Ynni

Gwastraff ac Ailgylchu

Cyflwyniad

Swyddogaeth RhASB yw: "Hyrwyddo er budd y cyhoedd, trwy gyfrwng y Rhwydwaith, cadwraeth, diogelwch a hyrwyddiad yr amgylchedd naturiol a ffisegol yn Sir Benfro a'i ffiniau (yr "Ardal") a'r cyfraniad a wna hyn i ddatblygiad cynaliadwy…" ac mae ganddo aelodaeth o 50 o fudiadau lleol sy'n ymddiddori mewn cyfoethogi'r amgylchedd.

Esblygodd y Cyfarwyddiadur hwn o ganlyniad i'r gefnogaeth gafodd RhASB gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) wrth ddatblygu ein Cynllun Busnes. Mae ein Datganiadau Safbwynt yn cyfleu ein hamcanion yn ogystal â'r pum egwyddor o Ddatblygiad Cynaliadwy a ddatblygwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) a'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy. Ymddangosai i ni mai'r cam rhesymol nesaf oedd ymchwilio i weld i ba raddau roedd y Datganiadau Safbwynt hyn yn cael eu cefnogi neu eu gwrthwynebu gan bolisïau ac arferion presennol o bersbectif Sir Benfro.

Rydym hefyd yn ymwybodol ei bod yn ofynnol gosod polisïau a gweithredu lleol yng nghyd-destun datblygiadau byd-eang ac, yn hyn o beth, roeddem o'r farn ei bod yn briodol ac yn ddefnyddiol i ystyried polisïau ac arferion y tu hwnt i Gymru a'r DU.

Fydden ni ddim yn hawlio fod y Cyfarwyddiadur hwn yn gynhwysfawr oherwydd ein bwriad syml yw cynnig golwg ar bolisïau ac arferion sy'n cefnogi, i amrywiol raddau, y bwriad o greu cymdeithas gynaliadwy. O'r herwydd, yr amcan yw cynnig gwybodaeth a sbarduno trafodaeth.

Rydym yn benodol ymwybodol fod y cyhoeddiad cyntaf hwn yn canolbwyntio ar nifer o ardaloedd polisïau cadarn a bod y cyfeiriadau at un o egwyddorion allweddol Datblygiad Cynaliadwy sef Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb yn ymhlyg yn hyn oll yn hytrach nag yn fater y cyfeiriwyd ato'n benodol (heblaw am y cyfeiriad at ddogni bwyd a chael gafael ar drafnidiaeth). Ond y ffaith amdani, heb y cydlyniad cymdeithasol a ddarparir gan gyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb, mae'r gobeithion o greu cymdeithas gynaliadwy yn dipyn llai. Bydd cyhoeddiadau'r dyfodol o'r Cyfarwyddiadur yn ceisio cywiro'r gwendid hwn.

Yn ogystal â darparu ffeithiau, mae'r Cyfarwyddiadur hwn hefyd wedi rhoi cyfle i RhASB gynnig sylwadau ar bolisïau ac arferion. Caiff y rhain eu tanlinellu yn y testun.

Yn olaf, rydym yn croesawu adborth a sylwadau ar gynnwys y cyhoeddiad cyntaf hwn yn y gobaith y gwna hynny gynyddu ei ddefnyddioldeb i bob mudiad sydd â diddordeb mewn cynaliadwyedd neu ymrwymiad i gynaliadwyedd.

Gallwch gysylltu â ni trwy'r wefan www.tenp.org.uk

.DATBLYGU CYNALIADWY:

Datganiadau Safbwynt RhASB

- Mae RhASB wedi ymrwymo i wireddu egwyddorion datblygu cynaliadwy yn Sir Benfro yn ogystal ag o amgylch y sir yn unol â'r hyn sydd wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth y DU a Chomisiwn Datblygu Cynaliadwy'r DU, a'r hyn sy'n ymhlyg yn Strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r Undeb Ewropeaidd ac agenda Gothenburg.

Gweithredu:

• Bydd RhASB yn hyrwyddo ac annog mabwysiadu a gwireddu egwyddorion Datblygu Cynaliadwy (gweler isod) drwy ei holl weithgareddau.

• Bydd RhASB yn cymryd pob cyfle i gymryd rhan mewn trafodaethau gyda mudiadau statudol lleol a chenedlaethol er mwyn herio agweddau presennol tuag at ddatblygiad, o ran polisi ac arfer, y cred RhASB fydd yn anghynaladwy.

• Bydd RhASB yn parhau i gyfrannu i'r trafodaethau sydd ar y gweill yng Nghymru ynghylch esblygiad polisi ac arfer Datblygu Cynaliadwy.

Polisïau Cyfredol

Lleol:

O dan Adran 39 o'r Ddeddf Pryniant Gorfodol a Chynllunio 2004 mae'n rhaid i Awdurdod Cynllunio Lleol ddefnyddio ei hawliau i gyfrannu at Ddatblygu Cynaliadwy. Ond, yn ôl yr arwyddion, ymddengys nad yw asiantaethau cyhoeddus lleol yn y sir wedi amgyffred y cysyniad o Ddatblygu Cynaliadwy. Er enghraifft, ni chafwyd ymdrech fwriadol gan Gyngor Sir Penfro i ddatblygu a gwireddu agwedd hollgynhwysol tuag at ddatblygu cynaliadwy. Tra cafwyd rhai gweithredoedd ad-hoc ni chafodd rhai cyfleoedd amlwg, gan gynnwys y mudiad Trefi Trawsnewid, eu cefnogi.

Nid ydym yn ymwybodol o'r un awdurdod lleol yng Nghymru sydd wedi llofnodi'r ymrwymiadau traws Ewropeaidd 'Aalboorg+10- Inspiring Futures' i ddatblygu cynaliadwy. Llofnoda awdurdodau lleol y ddogfen gan gydnabod bod ganddyn nhw " swyddogaeth ganolog mewn sicrhau datblygu cynaliadwy. Swyddogaeth sy'n mynnu ein bod yn cymryd agwedd mwy egnïol ac integredig tuag at lunio polisïau lleol"

Cenedlaethol:

Datblygu Cynaliadwy (DC) fel 'thema drawsbynciol', nid yw'r cysyniad o drefnu a sefydlu cyfres o egwyddorion hyd yma wedi'u llwyr gynnwys mewn polisi ac arfer cyhoeddus gan Gylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru (NAW) na Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC/WAG).

i) Mae **Cyfarwyddiaeth Amgylchedd a Chynaladwyedd Llywodraeth Cynulliad Cymru** wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i beidio â mabwysiadu diffiniad Comisiwn Datblygu Cynaliadwy'r DU o DC, na chwaith y pum egwyddor, at bwrpas llunio ei weithgaredd. Dewisodd, yn hytrach, i ganolbwyntio ar 'lles' fel egwyddor llunio hollgynhwysol. Efallai mai gwendid pennaf y penderfyniad hwn yw methiant i gydnabod goblygiadau disbyddi adnoddau byd-eang. Nid yw Cyfarwyddiaethau eraill wedi mabwysiadu egwyddorion DC mewn unrhyw ffurf gydlynol hyd yma.

ii) Mae LlCC wedi cynhyrchu Cynllun Datblygu Cynaliadwy 'Cymru'n Un; Cenedl Un Blaned', 2009. Ymhlith yr amcanion mae;

sicrhau cydraddoldeb cymdeithasol a chyfiawnder cymdeithasol,
gwneud Cymru'n batrwm rhyngwladol o fyw cynaliadwy, a,
lleihau ôl troed ecolegol Cymru 66% dros gyfnod o genhedlaeth (20-30 mlynedd)

Mae'r rhain yn dargedau uchelgeisiol, a byddai rhai o bosib yn dweud eu bod yn gwbl anymarferol gan awgrymu bod rhethreg a pholisi ar flaen y gad yn hytrach na gweithredu ymarferol.
(Noder: am fanylion ynghylch ôl troed ecolegol Cymru a'r gweithredu y gellid ei wneud i'w leihau, yna, ewch at Sefydliad Amgylcheddol Stockholm yn www.york.ac.uk

Caiff Cyngor Sir Gâr a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol eu crybwyll yn gyson fel patrwm o integreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy yn rhan o brif ffrwd llunio polisïau.

DU ac Ewrop

Yn ôl cynghorydd i'r CDCDU (Comisiwn Datblygu Cynaliadwy'r Deyrnas Gyfunol) mae pob llywodraeth yn ei chael yn anodd cyflwyno polisi datblygu cynaliadwy. Tra bo rhethreg polisi o bosib yn cael ei amlygu mae pob llywodraeth yn ei chael yn anodd delio â'r hyn sydd wedi'i ddisgrifio fel 'cyfyng gyngor tyfiant', mewn geiriau eraill, "mae'r wladwriaeth wedi'i chlymu wrth dwf economaidd er mwyn diogelu swyddi a sefydlogrwydd economaidd, ma' nhw'n glwm!" (Jackson 2009, tud 167 'Llewyrch Heb Dwf). Y pryder yw

bod polisi'n parhau i raddau helaeth i gefnogi datblygu anghynaladwy a thwf aneconomaidd, a hyd yma, ni roddwyd ystyriaeth ddifrifol i gynaliadwyedd.

Gwelir y cyfyng gyngor hwn wedi'i fynegi'n eglur ym mholisi'r UE, oherwydd wrth i bryderon ynghylch newid yn yr hinsawdd a datblygu anghynaladwy gynyddu dros y deng mlynedd diwethaf, clywid y rhethreg polisi'n codi'n uwch ac yn uwch. Ychwanegwyd at y Strategaeth DC, yn 2001, gan hyrwyddiad cymeriant cynaliadwy a pholisi cynhyrchu yn 2003, gyda'r bwriad o dorri'r cyswllt rhwng tyfiant a dirywiad amgylcheddol yn 2004. Yna, roedd yr Adolygiad Strategaeth yn 2005 yn hawlio bod economi gryfach yn allweddol i ddatblygiad cynaliadwy, heb esbonio'r berthynas rhyngddyn nhw, a bwrw ati i annog pob buddiolwr i awgrymu dulliau o ymateb i bob her gan ofyn am fwy o ymdrech i leihau perchnogaeth cerbydau a lleihau allyriant nwyon tŷ gwydr (CEC 2005). Mae'r duedd hon sef cydnabod y broblem gynyddol a methiant i gydymffurfio â thargedau allweddol, megis allyriadau CO2 ac atal colli bioamrywiaeth, yn parhau yn 2010.

Un casgliad y gellir ei dynnu yw na fydd gweithredu'n digwydd nes y ceir argyfwng a fydd yn ddigon sylweddol a sydyn o fewn natur i fynnu ymateb; yn y cyfamser, bydd polisi DC yn parhau ar ymylon llunio polisïau cyhoeddus ac agendau penderfyniadau.

Sylwadau:

Rhaid i DC ymbellhau oddi wrth y status quo a'r 'busnes arferol' waeth pa mor anodd yw dychmygu hynny o ran y broses o newid sydd ynghlwm mewn trawsnewid i ddyfodol cynaliadwy a natur y canlyniad terfynol. Mae yna gamau ar y gweill sydd yn amlwg yn ceisio cyfrannu at y broses megis y mudiad Trefi Trawsnewid ond mae'r rhain yn gymharol ad hoc ac yn fychan o ran graddfa ac yn ddibynnol ar griw bychan o wirfoddolwyr ymrwymedig.

Anhawster arall i bleidwyr DC yw'r ffaith ei bod hi mor hawdd i'r ymadrodd gael ei herwgipio, ei gamddefnyddio neu ei gamddeall. Mae'r gair 'cynaliadwy' wedi'i fabwysiadu droeon i olygu 'i gynnal' neu 'i barhau', e.e. economi gynaliadwy, cymuned gynaliadwy, cyllido cynaliadwy, a.y.b. ond heb erioed ei esbonio; mae'r amwysedd hwn yn arwain at gryn dipyn o rethreg ond ychydig iawn o weithredu.

Rhwystr pellach rhag mabwysiadu egwyddorion DC yw'r ofn y bydd Dyfodol Cynaliadwy o dyfiant isel neu heb ddim tyfiant yn ddyfodol diflas ac anfoddhaol yn arwain at ddogni a thlodi ac yn llawn gwrthdaro ynghylch adnoddau a chyfleoedd prin. Mae safbwyntiau o'r fath yn anwybyddu'r ffaith bod bywydau llawer o bobl yn yr 21 ganrif, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, eisoes yn adlewyrchu'r nodweddion hyn (Gweler gwefan www.socialevils.org.uk, a sefydlwyd gan Ymddiriedolaeth Joseph Rowntree sy'n disgrifio cyflwr y DU fel 'llwyddiant materol ond methiant cymdeithasol'). Y gwirionedd yw y gall dyfodol cynaliadwy gynnig lefel uwch o fodlonrwydd a llewyrch ac, yn sicr, bydd angen lefelau uwch o arloesedd a sgiliau.

Dywed Stern y bydd cost ymateb i newid hinsawdd a fydd wedi'i reoli yn llai na chost ymateb wedi'i ohirio neu heb ei gydlynu. Mewn gwirionedd, byddwn yn gyfoethocach o fynd ati i gynllunio a gweithredu nawr yn hytrach na disgwyl nes ei bod yn rheidrwydd arnom i ymateb. Ond rhaid deall nad yw canolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd, er mor bwysig ydyw, yr un fath â Datblygu Cynaliadwy nac yn medru cymryd ei le. Mewn gwirionedd, mae newid yn yr hinsawdd yn arwydd o ddatblygu anghynaladwy. Mae newid hinsawdd yn broblem 'atyniadol' am fod effeithlonrwydd ynni yn gydnaws â datrysiadau technolegol ac yn ysgogi twf economaidd a chreu swyddi ond nid yw'n gwarantu datblygu cynaliadwy!

Y tu hwnt i'r ddadl economaidd mae sylwebyddion wedi tynnu sylw at y ffaith y bydd gwledydd lle ceir lefelau uchel o gydlynu cymdeithasol a lefelau isel o wahaniaethu mewn llawer gwell sefyllfa i reoli ymateb i newid yn yr hinsawdd a disbyddu adnoddau a dogni e.e., y gwledydd Sgandinafaidd o gymharu â'r gwledydd hynny sy'n cynnal neu hyd yn oed yn cynyddu lefelau o anghydraddoldeb economaidd a chymdeithasol, e.e., Unol Daleithiau, DU (gweler 'Spirit Level' R Wilkinson and K Pickett, neu www.equalitytrust.org.uk) .

Yn olaf, mae'r rheiny sy'n dadlau na fydd dyfodol cynaliadwy'n galw am unrhyw aberth o gwbl oherwydd;

"crossing the 2C threshold we are contemplating a process as devastating as an all-out thermonuclear exchange, and what for exactly? For work devoid of meaning, for recreation which moves us restlessly round the world, and for electronic entertainment consisting of endless repetitive chatter. Recognising this is regaining perspective and sanity, not sacrifice. We wont opt for less until we stop seeing less as sacrifice" (J Foster, Adran Athroniaeth, Prifysgol Lancaster.)

Mae safbwyntiau fel yr uchod yn agored i'w gwawdio a'u gwrthod ond mae RhASB yn credu ei bod yn hanfodol eu cynnwys yn rhan o'r drafodaeth wrth weithio tuag at ddealltwriaeth o ddyfodol cynaliadwy a'r modd y gellir ei wireddu.

Gweithredu

Mae gweithredu DC yn benodol fel thema drawsbynciol yn anodd i'w ddiffinio. Oni bai fod gan yr egwyddorion DC swyddogaeth holl gofleidiol byddai mudiadau'n siŵr o ddewis a dethol o fewn ardaloedd o bolisïau cadarn, e.e. ynni adnewyddadwy, prosiectau bioamrywiaeth neu reoli gwastraff fel cyfraniadau pwysig i gynaliadwyedd. Mae mentrau lleol yn derbyn grantiau lleol i gynnal ffyrdd o fyw cynaliadwy a'r un modd mentrau cymunedol megis Trefi Trawsnewid.

Wrth gwrs, mae mentrau ad hoc yn bwysig iawn ond mae yna berygl y bydd gweithgareddau eraill nad ydyn nhw'n gynaliadwy yn diddymu eu heffaith. Dyma'r her sy'n wynebu DC sef osgoi rhethreg a gefnogir gan weithredu pitw trwy fabwysiadu agwedd integredig a chydlynol. Ar hyn o bryd, er enghraifft, mae'r gwerthusiadau cynaliadwy a wneir fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol dim ond yn ystyried i ba raddau y mae yna berthynas rhwng y gwahanol amcanion, ac mewn rhai achosion caiff yr amcanion economaidd eu hepgor o'r hafaliad. Nid yw datrysiad amcanion sy'n croesdynnu yn digwydd. Ni wneir mwy na chofnodi'r croesdynnu neu'r tyndra!

I weithredu DC rhaid ystyried y pum egwyddor wrth ddatblygu polisi neu benderfyniadau ac mae'r anghenraid hwn yn her go iawn i lunwyr polisïau. Ni fydd mwyach yn ddigon i gymeradwyo datblygu economaidd am ei fod yn creu swyddi. Wrth weithredu DC bydd rhaid gofyn cwestiynau megis - A yw'r datblygiad yn gynaliadwy o ran cynhyrchu a threuliant? Fydd y swyddi yn cynorthwyo i leddfu anghyfartaledd yn lleol? A yw'r peryglon neu'r manteision o fioamrywiaeth yn eglur? A fu trigolion lleol yn rhan o'r trafodaethau ynghylch y datblygiad arfaethedig a'r penderfyniad terfynol? Mae'r pum egwyddor DC, felly, yn rhestr gwiriad o'r gofynion yn hytrach na bocs ticio lle mae'n rhaid datrys gwrthdaro neu densiynau rhwng egwyddorion cynaliadwyedd a chynigion anghynaladwy. Bydd hyn yn broses anodd i ddechrau ond wrth i ddisbyddu adnoddau a phrinder dwysau, dros y degawdau nesaf, bydd y broses ddadansoddol hon yn angenrheidiol, a bydd angen iddi fod yn gynyddol dryloyw.

Pum egwyddor datblygu cynaliadwy

Sicrhau'r Dyfodol – strategaeth datblygu cynaliadwy Llywodraeth y DU, 2005

Byw o Fewn Terfynau Amgylcheddol

Parchu terfynau bioamrywiaeth, adnoddau ac amgylchedd y blaned – i wella ein hamgylchedd ac i sicrhau na fydd amharu ar yr adnoddau naturiol sydd eu hangen ar gyfer byw ac y byddan nhw ar gael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Sicrhau Cymdeithas Gref, Iach a Theg

Bodloni amrywiaeth anghenion yr holl bobloedd nawr ac yng nghymunedau'r dyfodol, hyrwyddo lles personol, cydlyniad a chynhwysiad cymdeithasol a chreu cyfleoedd cyfartal i bawb.

Sicrhau Economi Gynaliadwy

Creu economi gynaliadwy sy'n gadarn a sefydlog ac sy'n sicrhau ffyniant a chyfleoedd i bawb, gan wneud yn siŵr fod y sawl sy'n achosi llanast cymdeithasol ac amgylcheddol yn ysgwyddo'r baich hwnnw (y sawl sy'n llygru sy'n talu) a bod yna gymhelliant i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon.

Hyrwyddo Llywodraethu Da

Bwrw ati i hyrwyddo dulliau effeithlon a chyfranogol o lywodraethu ymhob lefel o gymdeithas – cymell creadigrwydd, egni ac amrywiaeth ymhlith pobl.

Defnyddio Gwyddoniaeth Gadarn yn Gyfrifol

Sicrhau datblygu a gwireddu polisi ar sail tystiolaeth wyddonol gadarn ac, ar yr un pryd, rhoi sylw dyledus i ansicrwydd gwyddonol (trwy'r egwyddor o fod yn ofalus) yn ogystal ag ystyried agweddau a gwerthoedd cyhoeddus.

AMGYLCHEDD

Datganiadau Safbwynt RhASB:

Amgylchedd naturiol

- Mae RhASB yn cefnogi cadwraeth, hyrwyddiad a mwynhad o amrywiaeth ac ansawdd cyfoethog y dirwedd yn Sir Benfro a'r amgylchedd morwrol a bydd yn gwrthwynebu datblygiadau a fyddai'n andwyol i'r safonau hynny.

- Mae RhASB yn cefnogi diogelu a chyfoethogi bioamrywiaeth (planhigion ac anifeiliaid) yn Sir Benfro ac yn benodol diogelu'r rhywogaethau brodorol sydd o dan berygl.

- Mae RhASB yn cefnogi gweithredu i wella ansawdd dyfroedd arfordirol, aberoedd, afonydd a dŵr daear yn ogystal â gwaredu llygredd mewn cyrsiau dŵr.

Amgylchedd adeiledig

- Mae RhASB yn cefnogi datblygu cynaliadwy o ran lleoliadau, gosod allan, dylunio ac arbed ynni ac yn disgwyl i'r Awdurdodau Cynllunio fabwysiadu'r egwyddorion hyn

- Mae RhASB yn cefnogi cadw a hyrwyddo treftadaeth adeiledig yn Sir Benfro; yn benodol henebion, adeiladau rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth a'u lleoliadau

- Fe fydd RhASB yn cefnogi datblygiadau fydd yn canolbwyntio ar aneddiadau helaethaf o fewn y sir er mwyn adlewyrchu'r patrwm presennol o ddatblygu a gwasanaethau cysylltiedig (patrwm tebygol gwasanaethau cyhoeddus dros y deng mlynedd nesaf) a chostau cynyddol tanwydd ar gyfer cludiant

Polisïau Cyfredol

Polisïau Lleol yn cynnwys

- **CSP wedi llofnodi Datganiad Newid Hinsawdd**

- Cydgynllun Datblygu Unedol/ Cynlluniau Datblygu Lleol.
- **Canllaw Cynllunio Ychwanegol.**
- **Cynllun Gofodol Cymru ar gyfer yr Hafan sydd ar y gweill.**
- Ardal Cadwraeth Arbennig Morwrol (Yr Hafan) Cynlluniau Rheoli a Gweithredu.
- **Sir Benfro: Cynllun Gweithredu Partneriaeth Bioamrywiaeth.**
- **Mae Cynlluniau Rheoli Traethlinau yn eu lle ar gyfer arfordir Sir Benfro ond nid yw'n eglur pwy sydd â chyfrifoldeb dros amddiffynfeydd llifogydd (gweler gwefan RhASB. www.tenp.org.uk)**

Polisïau Cenedlaethol yn cynnwys:

Y Cynllun Datblygu Cynaliadwy 2009 sy'n annog:
- gostyngiad o 60% yn ôl troed ecolegol Cymru o fewn cenhedlaeth
- targedau lleihau CO2.

Dyma yw polisi LlCC ynghylch effeithlonrwydd ynni ac allyriadau carbon isel ar gyfer adeiladau newydd:

Caiff y Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy ei gofnodi yn 'Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 3' a 'Nodyn Cynghori Technegol 22 – Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy'.

Dywed Polisi Cynllunio Cymru 4.11.4; "mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl cydymffurfiad â'r safonau canlynol:
Ceisiadau ar gyfer un neu fwy o aneddiadau a ddaw i law ar neu wedi 1 Medi 2010 i gydymffurfio â Cod Cartrefi Cynaliadwy, Lefel 3 ac i sicrhau chwe chredyd o dan Enw 1 - Cyfradd Allyriadau Anheddau.
Disgwylir i bob cais a ddaw i law ar neu wedi 1 Medi 2009 ar gyfer datblygiadau nad yw ar gyfer preswylio a fydd iddo faint llawr o 1000m2 neu fwy, neu bydd ar safle sy'n hectar neu fwy, i gydymffurfio â Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) safon "Da Iawn" a llwyddo i sicrhau'r credydau gorfodol o "Ardderchog" o dan fater Ene1 - Lleihau Allyriadau CO2."
Bydd pob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru yn arddel y polisi hwn am ei fod yn anghenraid cenedlaethol gorfodol ac nid yn ddewisol.

Bydd rhaid i gynllunwyr sicrhau cydymffurfiad, a byddan nhw'n dibynnu ar aseswyr CofSH/BREEAM i ddarparu'r dystiolaeth. Mae NCT 22 yn amlinellu'r broses. Gall cynllunwyr osod amod yn atal preswylio nes bod tystysgrif derfynol cod/BREEAM wedi'i roi yn cadarnhau bod y datblygiad yn cydymffurfio â chod 3 neu BREEAM da iawn (NCT 22 adran 6).

Yn ddiweddar (Awst 2010) mae LlCC wedi tendro am ddarn o waith i ddarparu canllaw i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar sut i gymhwyso 'ôl troed ecolegol' ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio.

Mae LlCC, ar hyn o bryd, yn ymgynghori ynghylch cynigion amddiffynfeydd llifogydd ar gyfer arfordir Cymru (cyfeirier at y broses ymgynghori gyfredol).

Mae'r tebygolrwydd o werthu gwarchodfeydd natur ac ardaloedd cadwraeth cyhoeddus a newidiadau posib i gylch gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth yn debyg o gael goblygiadau difrifol ar yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth yn ogystal â mynediad i'r cyfryw lefydd, (gweler isod o dan DU). Deallir bod cadeirydd y Cyngor Cefn Gwlad wedi dweud "mae'n rhaid i ni ofyn a oes gwir angen gwarchodfeydd natur arnom a ph'un a all y sector busnes ddarparu llifeiriant cyllid newydd" (Guardian, 14eg Awst 2010, tudalen 6). Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn ystyried gwerthu eiddo ac mae 300,000 cyfer o fforestydd yn nwylo LlCC â llawer ohono'n hynod o werthfawr oherwydd ei botensial ar gyfer ffermydd gwynt.

Lluniwyd 'Glastir', y Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy ar gyfer Cymru, i ysgwyddo'r holl gostau ac unrhyw incwm a gollir wrth i ffermwyr weithredu er lles yr amgylchedd ar ran y trethdalwr (mae hwn yn ychwanegol i'r Taliad Sengl sy'n cynnig cymorth incwm i ffermwyr). Er mwyn hawlio grant o dan y cynllun amaeth-amgylchedd hwn mae'n rhaid i ffermwyr ddewis opsiynau sydd, ar y cyd, yn cyrraedd y 28 pwynt cymhwyso fesul hectar. Ymhlith yr opsiynau mae: cynefin, tir âr, a thirwedd. Y cyfanswm cymhorthdal sy wedi'i neilltuo ar gyfer Cymru yw £90m.

Sylwadau

Mynegwyd pryder gan Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr bod 'lefel mynediad' Glastir (y pwyntiau sydd eu hangen) yn rhy uchel ac nad yw'n atyniadol i rai ffermwyr ac yn anhygyrch i eraill. Mae yna hefyd farn y byddai'n rheitiach prynu mwy o dda byw am mai prin uwch na'r costau yw'r taliadau a gynigir a bod cynlluniau amaeth-amgylchedd yn cymryd defnydd o dir pori gwerthfawr.

DU

Mae'r Llywodraeth Glymblaid bresennol yn edrych ar y posibilrwydd o werthu ardaloedd cadwraeth/gwarchodfeydd natur sydd mewn dwylo cyhoeddus fel rhan o'r toriadau i leihau'r diffyg ariannol. Mae yna gynigion o dan ystyriaeth yn San Steffan a Chaerdydd. Mae cynllun strategaeth diweddaraf Asiantaeth yr Amgylchedd wedi disodli'r weledigaeth flaenorol ac yn cynnwys pedwar addewid penodol ond nid yw bioamrywiaeth yn un ohonyn nhw (Guardian 14eg Awst).

Mae yna bryderon y gallai toriad o 40% yn y gyllideb amgylchedd fygwth gwaith ymchwil hollbwysig i gyflwr moroedd Prydain ar adeg pan mae yna bwysau na fu ei debyg o'r blaen ar gynefinoedd morwrol. Byddai toriadau hefyd yn golygu y byddai'r Llywodraeth yn torri ei haddewidion o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac, o ganlyniad, yn arwain at oedi mewn buddsoddi mewn ffermydd gwynt oddi ar yr arfordir a ffynhonnau olew.

Ewropeaidd

O ran diogelu cynefinoedd Naturiol 2000 rhag datblygiadau ynni gwynt a diwydiannau echdynnol nad ydyn nhw'n ymwneud ag ynni mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi canllawiau penodol yn ddiweddar ar gyfer asesu cynlluniau a phrosiectau yn Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Gwelir y canllawiau trwy ymweld â **www.ec.europa.eu/environment/nature/natura2000/management/guidance_en.**

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd, ar hyn o bryd, yn 2010, yn paratoi strategaeth newydd ar gyfer diogelu'r amrywiaeth cyfoethog o ecosystemau. Am na lwyddwyd i gyrraedd y targed o atal colli bioamrywiaeth erbyn 2010 mae'r UE yn ystyried dulliau llymach o gyrraedd y nod hwn erbyn 2020. Gosodwyd targedau newydd, comisiynwyd astudiaeth o gostau colli bioamrywiaeth (Economeg Ecosystemau a Bioamrywiaeth/The Economics of Ecosystems and Biodiversity, TEEB) a sefydlwyd polisi bioamrywiaeth cyfatebol i'r IPCC i hyrwyddo tystiolaeth wyddonol a chodi pryderon bioamrywiaeth wrth lunio polisïau prif ffrwd (Intergovernmental Platform on Biodiversity and Ecosystem Services, IPBES). Os ydych am fwy o wybodaeth galwch heibio: www.ec.europa.eu/environment/nature/biodiversity/intro/index

Sylwadau

"Mae TEEB yn ceisio gosod gwerth ariannol ar yr ecosystem rydym yn ei dinistrio. Dengys fod budd economaidd diogelu cynefinoedd a rhywogaethau yn aml iawn yn fwy na'r arian y gellir ei wneud trwy eu dinistrio. O'r hyn a ddeallaf, os na ellir mesur gwerth rhywbeth yna nid yw llywodraeth na busnesau'n ei ystyried yn werthfawr. Serch hynny, mae'r ymarferiad hwn yn fy mhoeni. Gynted ag y bydd rhywbeth wedi'i fesur yna mae'n bosib bargeinio yn ei gylch. Mae'r agwedd hon yn gwneud y biosffer yn ddim mwy nag atodiad i'r economi tra dylai'r gwrthwyneb fod yn wir. Tra fy mod wedi fy ffieiddio gan y modd y caiff natur ei gwasgu i golofn o ffigyrau, dwi'n cael fy ngorfodi i gytuno, efallai, fod hynny'n angenrheidiol. Beth arall sy'n mynd

i orfodi'r bobl ofnus a ffrwyn dywyll sydd mewn grym heddiw i gymryd y mater o ddifrif?" (G. Monbiot, Guardian, 2/11/2010, tudalen 27).

Rhyngwladol

Cyhoeddodd y Cenhedloedd Unedig (CU) bod angen ailhyfforddi 20m o bobl sy'n cael eu cyflogi yn y diwydiant pysgota i weithio mewn meysydd eraill dros y 40 mlynedd nesaf er mwyn osgoi diflaniad llwyr y cyflenwadau pysgod yng nghefnforoedd y byd. Cyfanswm o £18b mewn cymorthdaliadau blynyddol, traean o werth y pysgod sy'n cael eu dal, yw rhan o'r broblem am ei fod yn arwain at orgynhyrchu a disbyddu'r heigiau pysgod (dyddiad 18/5/2010).

Cyhoeddodd cynhadledd y CU ar Amrywiaeth Biolegol nad oes yr un wlad wedi cyrraedd y targedau i ddiogelu natur ac ofnir y cyrhaeddir 'man di-droi nôl' cyn hir. Byddai hyn yn golygu dymchwel economïau am fod cysylltiad rhwng bioamrywiaeth a diogelwch economaidd. Hawlia'r CU bod yr achos economaidd dros weithredu byd-eang i atal dinistrio rhywogaethau hyd yn oed yn fwy pwerus na'r ddadl dros ddelio â newid hinsawdd am fod yr arbedion trwy ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau naturiol (peillio, tir ffrwythlon, awyr glân ac ati), rhywle rhwng 10 a 100 gwaith y gost o arbed y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n eu darparu (dyddiad 17/8/2010).

Arfer:

Lleol

Mae yna enghreifftiau o weithredu lleol i ddiogelu neu gyfoethogi bioamrywiaeth (gweler PLANED a'r Bartneriaeth Bioamrywiaeth).

Mae yna enghreifftiau o ddylunio adeiladau, adeiladu a thrwsio sy'n defnyddio dulliau a deunyddiau traddodiadol (calch, byrnau gwellt, coed). Mae'r rhain yn fach o ran nifer ac yn ddibynnol ar ymrwymiad perchnogion eiddo unigol (cyf: 'Ein Treftadaeth Werthfawr: Cadwraeth adeiladau brodorol Cymru', gan Cliff Blundell, 2007)

Mae'r Parc Cenedlaethol a'r Cyngor Sir yn codi a dylunio adeiladau carbon isel ac yn arddel arfer gorau o ran dylunio cynaliadwy.

Mae Cynlluniau Rheoli Traethlinau yn eu lle ar gyfer arfordir Sir Benfro ond, yn ôl yr arwyddion, rhagwelir y bydd lefel y môr yn codi nes bydd yr arfordir yn dychwelyd i fel yr oedd y traethlinau yn 1750. Bydd yr holl fanteision dros y 250 mlynedd diwethaf yn debyg o gael eu colli heb fuddsoddiad anferth. (I weld y manylion ewch heibio gwefan RhASB lle gwelir cyflwyniad Richard Ellis o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol: www.tenp.org.uk.

Cydweithfa fechan yng Ngogledd Ddwyrain Sir Benfro yw Calon yn Tyfu Cyf (Growing Heart) sydd er 1996 wedi bod yn bwrw ati i ddisodli coed conifferaidd gyda choed brodorol llydanddail ynghyd â choed cnau a ffrwythau y gellir eu bwyta. Yr amcan yw gwneud y goedwig yn fwy addas ar gyfer anghenion y dyfodol. (www.growingearth.co.uk

Cenedlaethol

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru ar hyn o bryd yn cefnogi pedwar awdurdod yng Nghymru i gwblhau prosiect sy'n ymwneud ag effaith newid yn yr hinsawdd, 'Newid Hinsawdd: Newid Llefydd'. Bydd y pedwar awdurdod yn ymchwilio i natur, peryglon a chyfleoedd newid yn yr hinsawdd, sut fydd yn effeithio ar leoliadau yn eu hardaloedd nhw a beth fydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn addasu i'r newid arfaethedig.

DU

Mae Partneriaeth Effeithiau Newid Hinsawdd Morwrol yn darparu'r diweddariadau diweddaraf ar sut y mae newid hinsawdd yn effeithio ar ein moroedd, gan gynnwys effaith ar foroedd rhanbarthol ac effaith newid hinsawdd ar amgylchedd arfordirol (www.mccip.org.uk

Ewrop/Rhyngwladol

Mae dinasoedd megis Freiburg yn yr Almaen, a Malmo a Stockholm yn Sweden, yn enghreifftiau ysbrydoledig o batrymau anheddu a dylunio adeiladau ynni isel ac o ddinasoedd sy'n troi'n 'wyrdd'.

Fe fu'r Iseldiroedd ers tro yn enghraifft o integreiddio a chefnogi cerddwyr a seiclwyr nid yn unig o ran cynllunio trefol ond hefyd o ran darparu trafnidiaeth gyhoeddus gyfeillgar i seiclwyr a chyfleusterau parcio diogel.

Gellir cael gwybodaeth am: cyflwr erydu arfordirol, mynegai codiad lefel y môr, dwysedd poblogaethau ar hyd rhanbarthau arfordirol, a dosbarthiad cwotâu neu ddaliadau fesul gwlad, parthau pysgota neu rywogaethau, ar draws Ewrop gyfan yn 'Atlas Ewropeaidd o'r Môr'. Ewch iddo o'r fan hon www.ec.europa.eu/maritimeatlas Nodyn: angen Flash Player.

YNNI

Datganiadau Safbwynt RhASB:

- Mae RhASB yn cefnogi gweithgareddau sy'n lleihau defnydd o ynni ac yn cynyddu effeithlonrwydd ynni.

- Mae RhASB yn cefnogi datblygiad, hyrwyddiad a'r defnydd o dechnoleg adnewyddu ynni ar draws yr holl sectorau o'r cartref i ddiwydiant gan gynnwys datblygiadau presennol a newydd, yn amodol ar ei briodoldeb o fewn y dirwedd.

- Mae RhASB yn cefnogi ymchwil i ddatblygiad ac effaith biodanwyddau ar yr amgylchedd, cymdeithas, cludiant a'r economi.

- Mae RhASB yn cefnogi gweithredoedd a mentrau sy'n lleihau tlodi tanwydd yn y sir ac yn sicrhau nad yw'r mwyaf difreintiedig wedi'u heithrio o fuddiannau prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddol.

Gweithredu

Trwy ei rwydweithiau a'i swyddogaeth gynrychioliadol bydd RhASB yn:

- Annog mabwysiadu graddfeydd ynni uchaf BREEAM a thechnoleg creu ynni adnewyddadwy.
- Annog mabwysiadu arfer gorau o ran gweithio ynni effeithiol ar draws holl sectorau'r economi a dadlau o blaid cyhoeddi manylion creu ynni, pwrcasu, defnydd ac effeithlonrwydd ar draws holl asiantaethau'r sectorau gwirfoddol a chyhoeddus.
- Cymryd rhan weithredol yn y broses ymgynghorol i sicrhau newid polisi a gwireddiad effeithiol o bolisïau cyfredol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a fydd yn lleihau'r defnydd o danwydd ffosil yn ogystal ag allyriadau C02.
- Cefnogi a chyfrannu at fentrau sy'n ceisio cynyddu gosod cyfarpar adnewyddu ynni ar draws y sir, megis Ymddiriedolaeth Ynni ledled y sir.

Polisïau Cyfredol

Mae **Polisïau Lleol** ynghylch Effeithlonrwydd Ynni a Defnydd Carbon Isel yn amlwg yn:

Cyngor Sir Penfro (CSP) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordirol Penfro (APCAP) wedi llofnodi'r Datganiad Newid Hinsawdd.
Cefnogaeth i'r patrwm aneddiadau ynni isel yn cael ei ddatblygu ar y cyd â LlCC a Chynllun Cymru ar gyfer yr Hafan.
CSP ac APCAP wedi ymrwymo i greu ynni adnewyddadwy mewn datblygiadau ac mewn newidiadau diweddar i hawliau datblygu a ganiatawyd o dan Reolaeth Cynllunio.

Cenedlaethol

Mae Cynllun DC LlCC wedi ymrwymo i ddefnyddio ynni isel, 3% o ostyngiad mewn allyriadau C02 fesul blwyddyn o 2011, a 'dim carbon' wrth adeiladu erbyn 2011. Yr anhawster gyda'r targed o 3% o ostyngiad yw ei fod yn fyr o'r 6-9% o ostyngiad sydd ei angen. Yn ôl Y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd/Intergovernmental Panel on Climate Change (IPCC) mae'r targedau a osodir gan asiantaethau cyhoeddus yn ddatganiad o'r lefel o berygl y mae'r asiantaethau hynny yn barod i'w reoli!

Mae Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 8 yn gosod Targedau Ynni Adnewyddadwy o 4 TerraWatt awr o gynhyrchu trydan adnewyddadwy erbyn 2010 a 7 TWh erbyn 2020.

Mae 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' yn gosod targedau o 30TWh o gynhyrchu trydan adnewyddadwy erbyn 2025 a 3TWh o wres adnewyddadwy erbyn 2025.

Mae LlCC ar hyn o bryd yn cydweithio â swyddfa Caerdydd o Gomisiwn Datblygu Cynaliadwy'r DU (CDCDU) ar fenter 'Cymru Carbon Isel' er mwyn cynorthwyo i ddatblygu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ymhob un o'r ardaloedd Cynllun Gofodol. Nodir yr ôl troed carbon ar gyfer pob ardal a sefydlwyd grwpiau gweithredu i drafod sut i leihau'r defnydd o garbon: yn y gymuned, tai, trafnidiaeth, cynhyrchu bwyd, yr amgylchedd a'r economi. Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy a LlCC yn cefnogi a hwyluso'r gweithdai hyn a darpara'r CDC 'Banc Adnoddau' hefyd o ddeunydd gwybodaeth: www.sd-commission.org.uk/walesorg.uk/wales>.

Llywodraeth DU

Ym mis Ebrill 2009 neilltuodd y Llywodraeth £55m o **fenthyciadau di-log er mwyn cynorthwyo mudiadau sector gyhoeddus i ostwng eu defnydd o ynni gan leihau eu hôl troed carbon**. Mae'r benthyciad yn talu am 100% o holl gostau'r prosiect a gellir buddsoddi 25% o'r arbedion mewn gwasanaethau rheng flaen. Mae'r rhaglen a reolir gan Carbon Trust and Salix Finance yn amcangyfrif y gall yr arbedion costau dalu am yr ad-daliadau benthyca a fydd yn cychwyn ym mis Mawrth 2011. Gobaith y rhaglen yw arbed £600m a 3.5m tunnell o CO2. Ewch at y wefan (www.salixfinance.co.uk/loans) i weld rhestr o'r rheiny sy'n cymryd rhan. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 5/2/10 ac erbyn 28/1/10 dim ond pedwar awdurdod lleol yng Nghymru oedd wedi cymryd mantais o'r rhaglen; **NID** yw Cyngor Sir Penfro yn un o'r pedwar. Yng nghyllideb 2009 rhoddodd Llywodraeth DU £4m yn ychwanegol i LlCC.

Ymrwymiad Lleihau Carbon o fis Ebrill 2010 yn gynllun masnachu carbon y mae'n gyfreithiol ofynnol i'w wireddu, er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni a lleihau CO2, wedi'i seilio ar yr egwyddor 'y sawl sy'n llygru sy'n talu'. Bydd hyn yn berthnasol i ddefnyddwyr sylweddol o ynni megis awdurdodau lleol. Bydd Tariff Bwydo i Mewn o fis Ebrill 2010 yn darparu incwm i feicro-genhedlu ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan

Roedd Mesur Ynni 2008 yn cyflwyno targedau C02 gorfodol (15% o ynni wrth adnewyddion erbyn 2020, 80% o leihad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (Nwyon Tŷ Gwydr/Green House Gases) erbyn 2050). Mae'r rhain yn fyr o'r nod o lefelau gostwng sydd eu hangen i osgoi 2C o dwymo bydeang.

Mae'r Ddeddf Cymunedau Cynaliadwy 2008 (Lloegr) yn galluogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol, mewn cydweithrediad â'u hawdurdod lleol, i gynnig am grantiau i weithredu egwyddorion newid trefol.

Mae dogni carbon o dan ystyriaeth. Byddai'n rhaid torri dwy dunnell o'r cyfanswm o ddeg tunnell o CO2 a gynhyrchir yn flynyddol gan bob Prydeiniwr erbyn 2050 er mwyn cyrraedd y targedau newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn gyfystyr â 6cg y diwrnod neu 25 milltir o yrru fesul diwrnod. Yn ôl McKinsey Consulting "nid yw'r Llywodraeth wedi amgyffred canlyniadau economaidd a chymdeithasol y fath newid" (Gorffennaf 2009).

Dengys asesiadau Llywodraeth y DU fod cyfraniad y DU i dwymo bydeang wedi gostwng 19% er 1990. Ond pe bai hedfan, teithio ar longau, twristiaeth a'r allyriadau oddi allan ac wedi'u mewnforio ar ffurf nwyddau wedi'u cynhyrchu yn cael eu hystyried byddai'r DU wedi cynyddu ei chyfraniad 29%. Yr argraff a geir yw bod y cynnydd mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi'i sicrhau yn fwy gan ddiogelwch ynni a thwf economaidd a chyfleoedd creu swyddi na thrwy dwymo bydeang.

Ym mis Hydref 2010 cyhoeddodd y Llywodraeth Glymblaid newydd fuddsoddiad o £1b mewn technoleg cipio carbon, 10% o ostyngiad yn y taliadau Tariff Bwydo i Mewn a chynlluniau ar gyfer creu Banc Buddsoddi Gwyrdd y bydd ganddo £6b i annog buddsoddi mewn technoleg gwyrdd. Yn y cyfamser mae'r cynlluniau hyn wedi'u diwygio i sicrhau y bydd £2b ar gael o brosiectau presennol.

Ewrop/Rhyngwladol

Bydd y cytundeb bydeang ar gyfer cyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, Kyoto, yn dod i ben yn 2012. Ar hyn o bryd does yna fawr o obaith y caiff y cytundeb hwn ei ddisodli gan gytundeb arall cyn y daw Kyoto i ben. Mae'r gwledydd G8 a G20, fodd bynnag, wedi mabwysiadu'r cynnydd 2C o ran targed twymo bydeang. Mae'r G8 wedi dehongli hyn fel gostyngiad o 50% mewn allyriadau bydeang ond heb nodi erbyn pa flwyddyn!

Cytunwyd ar y targed o 2C mewn tymheredd bydeang mewn cyfarfod o Gyngor Gweinidogion yr UE yn 1996 a chafodd ei ddilysu'n ddiweddarach gan yr IPCC (Y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd) yn 2001. Yn 2007 cafodd trothwy effaith yr IPCC ei dynnu i lawr 0.5C. Dywedodd is-gadeirydd yr IPCC fod trothwy perygl wedi newid yn ystod y 13 mlynedd o 2C a 450ppm i 1.5C a 350ppm yn 2010. Mewn geiriau eraill mae angen gostwng y targedau lleihau presennol. (Ffynhonnell ymchwil *UE, Rhif 63, Ebrill 2010) .

Dywed yr IPCC fod y targedau a ragwelir ar hyn o bryd ar lefel rhyngwladol yn syrthio'n fyr o'r hyn fyddai ei angen i ddiogelu poblogaethau a systemau eco. Yn 2007 dywedodd yr IPCC y dylid torri allyriadau bydeang rhwng 50-85% o gymharu â lefelau 1990. Ers hynny gwelwyd cynnydd o tua 40% mewn allyriadau!

Yn ôl adroddiad diweddar gan 'Sgorfwrdd Rhyngweithiol Hinsawdd' mae'r byd, ar sail monitro'r targedau lleihau allyriadau mewn mwy na 60 o wledydd, yn wynebu cyfartaledd cynnydd mewn tymheredd o 3.5C, sy'n well na'r broffwydoliaeth 'busnes arferol' o 4.8C ond bron dwbl y targed a nodwyd sef 2C (6ed Gorffennaf 2010.)

Ar 22/23 Medi, 2010, cynhaliwyd yr Uwchgynhadledd Arctig gyntaf o blith y cenhedloedd hynny sydd â diddordeb mewn cloddio am gyflenwadau nwy ac olew yn yr ardal a amcangyfrifir sydd yn cynnwys 25% o'r cyflenwadau wrth gefn bydeang. Mae'r cyfleoedd i gloddio am y cyflenwadau hyn wedi gwella o ganlyniad i gynhesu bydeang a thoddiant y rhew parhaol (bydd methane, nwy tŷ gwydr pwerus yn cael ei ryddhau yn y broses!)

Bwriada Siapan, sy'n mewnforio bron ei holl nwy, fuddsoddi £667m mewn cloddio dwfn oddi ar yr arfordir er mwyn defnyddio ffynhonnell y methane hydrate sy wedi'i rewi. Awgryma'r arolygon y bydd yno ddigon o nwy am gan mlynedd ar sail y raddfa ddefnydd bresennol. Mae yna bryder y gallai'r gwelyau methane ddadsefydlogi, y bywyd morwrol gael ei ddinistrio a methane gael ei ollwng i'r atmosffer.

Targed yr UE yw cynhyrchu 15% o drydan gan nerth y gwynt erbyn 2020 a 50% erbyn 2050.

Arfer

Lleol

Mae CSP yn defnyddio bwyleri Biomas a thechnoleg effeithlonrwydd ynni yn Neuadd y Sir.

Ysgol Portfield Sir Benfro yw un o'r adeiladau graddfa 'A' cyntaf yng Nghymru .

Mae CSP yn pwrcasu 'ynni brown'.

Mae APCAP wedi ymrwymo i'r lefel uchaf o raddfa BREEAM (effeithlonrwydd ynni) yn ei hadeiladau e.e. Oriel y Parc yn Nhyddewi.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ystyried 'Cytundeb Lleihau Carbon' a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bob asiantaeth gyhoeddus yn y sir i nodi union swm eu defnydd blynyddol o ynni ar-lein.

Mae pedair cymuned leol yn y sir wedi sefydlu grwpiau Trefi Trawsnewid mewn ymateb i Newid yn yr Hinsawdd ac 'Olew Brig' ac maen nhw'n ceisio hyrwyddo ffordd o fyw ynni isel. (Hwlffordd, Bro Gwaun/Abergwaun, Arberth, Trawsnewid Frenni (Crymych). Ar hyn o bryd mae nifer yr aelodau a'r cefnogwyr dros 600.

Mae Canolfan ECO Gorllewin Cymru (Trefdraeth, Sir Benfro) yn darparu cyngor annibynnol ar fesurau a thechnoleg effeithlonrwydd ynni ac wedi datblygu nifer o brosiectau arloesol yn cynnwys prosiect trawsgenedlaethol wedi'i gyllido gan yr UE.

Mae YMSB/MEP (Ynni Morwrol Sir Benfro/Marine Energy Pembrokeshire) yn bartneriaeth preifat gyhoeddus a gafodd ei sefydlu'n ddiweddar (Awst 2010). Yr amcan yw dangos arbenigedd Sir Benfro mewn ynni adnewyddadwy morwrol a denu datblygwyr i ddod â mwy o brosiectau i'r ardal. Mae YMSB yn siop un alwad ar gyfer datblygwyr ac fe'i sefydlwyd gan GSP, APCAP, APA (Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau), CCGC, LlCC ac eraill. Tonia Forsyth o Fforwm Arfordirol Sir Benfro sy'n gyfrifol am y wefan. Mae YMSB yn bartneriaeth breifat gyhoeddus a gafodd ei sefydlu'n ddiweddar (Awst 2010). Yr amcan yw dangos arbenigedd

Sir Benfro mewn ynni adnewyddol morwrol a denu datblygwyr i ddod â mwy o brosiectau i'r ardal. Mae YMSB yn siop un alwad ar gyfer datblygwyr ac fe'i sefydlwyd gan GSP, APCAP, APA (Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau), CCC , LlCC ac eraill. Tonia Forsyth o Fforwm Arfordirol Sir Benfro sy'n gyfrifol am y wefan www.marineenergypembroskeshire.co.uk

Cynigiodd chwe chymuned yn Sir Benfro am gyllid cyfalaf o dan Her Cymunedau Carbon Isel Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Tra na fydd mwy nag un neu ddau yn debyg o fod yn llwyddiannus mae hyn yn arwydd o fentrau 'llawr gwlad' yn y sir.
(Troednodyn: Roedd Lammas yn llwyddiannus o ran Cam 1 a Chwm Arian (Hermon) o ran Cam 2)
'Sylwadau' Biodanwyddau

Cenedlaethol

Mae LlCC a'r CDCDU yn gweithio ar ddatblygu nifer o Ranbarthau Carbon Isel (RhCI) ar draws Cymru. Yr amcan yw cofnodi mesurau ymarferol a fydd o gymorth i gyrraedd y targed o leiafswm lleihad o 3% mewn allyriadau C02 yn flynyddol. Mae'r grwpiau rhanbarthol yn edrych ar bob agwedd o ynni, defnydd tir, cludiant, gwastraff, ac ati (gweler adroddiad Rhanbarthau Carbon Isel, ar gael wrth CDCDU).

Lansiodd LlCC a CDC, Cymru, Trywydd Carbon Isel ym mis Medi 2010 sydd yn gynllun penodedig ar gyfer gwneud De Orllewin Cymru yn RCI cyntaf Cymru. Bydd hyn, felly, yn ymestyn ei botensial i greu ynni adnewyddadwy. Bydd y Tasglu Carbon Isel yn cynhyrchu cynllun gweithredu i dorri allyriadau yn gynnar yn 2011. Dadleua'r CDC bod angen i bobl leol gymryd rhan er mwyn buddiant iddyn nhw a'r amgylchedd lleol. (am fwy o fanylion ewch i: www.sd-commission.org.uk/wales

'Tanwydd Coed Cymru', corff oddi fewn i'r diwydiant sy'n annog safonau o ansawdd wrth gynhyrchu a gwerthu coed fel tanwydd a hyrwyddo coed fel ffynhonnell gynaliadwy, carbon isel a dibynadwy (www.woodfuelwales.org.uk)

DU

Mae awdurdodau lleol yn Lloegr (er enghraifft: Gwlad yr Haf, Nottingham, a Brixton) wedi ymrwymo i gefnogi mentrau Trefi Trawsnewid.

Cyngor Merton: wedi defnyddio cyfraith cynllunio i annog ynni adnewyddadwy ac i hybu creu swyddi 'gwyrdd'.

Cyngor Kirklees: wedi sefydlu coleg hyfforddi ynni adnewyddadwy ac yn darparu grantiau ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni yn y cartref.

Cyngor Dinas Aberdeen: wedi buddsoddi mewn systemau cynhesu ar gyfer tai cymdeithasol mewn dwy ardal.

Cyngor Dinas Rhydychen yn ddiweddar wedi ennill 'Gwobr Arloesedd' yr Ymddiriedolaeth Carbon yn gydnabyddiaeth am ei waith yn anelu tuag at 25% o leihad yn ei ôl troed carbon dros dair blynedd: *"Does dim sydd yn anodd nac yn ddrud iawn yn yr hyn rydym ni wedi'i wneud",* meddai'r Cyng. Tanner. Y cam nesaf fydd codi twrbeini gwynt ar safleoedd o amgylch cyrion gwledig Rhydychen. Mae 'Partneriaeth Rhydychen' o asiantaethau sector cyhoeddus hefyd wedi'i ffurfio sydd wedi ymrwymo i sicrhau toriad o 50% yn yr holl allyriadau ar draws y sir erbyn 2030.

Mae Cyngor Windsor a Maidenhead yn ei gwneud yn ofynnol i bob asiantaeth gyhoeddus gyhoeddi eu defnydd o ynni ar-lein. Eisoes gwelwyd lleihad o 15% mewn treuliant o ynni y flwyddyn ddiwethaf.

Mae ffermwr yn Wadebridge, yng Nghernyw, yn cynnig sefydlu 'fferm ynni' 15 cyfer ar sail paneli silicon photovoltaic. Eisoes cododd £4.5m mewn buddsoddiadau preifat. Byddai'n creu trydan ar gyfer 600 o gartrefi. Mae Prifysgol Caerwysg a Menter Gydweithredol Ynni Adnewyddadwy (R-ECO) yn rhan o'r consortiwm ac

wrthi ar hyn o bryd yn trafod ag Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (NFU) ynghylch tynnu ffermwyr eraill i mewn i'r fenter.

Mae'r DU ar hyn o bryd yn darparu 3% o'i ynni trwy nerth y gwynt er roedd y ffigwr yn 10% yn ystod un wythnos ym mis Medi 2010, (Guardian, Medi 2010). Roedd ynni adnewyddadwy yn darparu 6.2% o'r holl gyflenwad yn ystod chwarter cyntaf 2010 (Ystadegau Ynni Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd)

Y gobaith yw y bydd 30% o'r holl ynni a ddefnyddir yn ynni adnewyddadwy o fewn deng mlynedd er y bydd hyn yn dibynnu ar gefnogaeth y Llywodraeth trwy'r Banc Buddsoddi Gwyrdd yn ogystal â'r galw am ynni yn y farchnad fyd-eang . Bydd 100 o dwrbeini yn dod i rym 12 milltir oddi ar arfordir Caint cyn hir â'r un modd 340 o dwrbeini, London Array, yn dod i rym hefyd.

UE/ Rhyngwladol:

Cynyddodd y gallu i gynhyrchu ynni o wynt 31% yn 2009.

Yn Ewrop dim ond 5% o drydan a ddaw o dwrbeini gwynt ond yn arwyddocaol mae 40% o'r gallu cynhyrchu o'r **newydd** yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn deillio o dwrbeini gwynt. O ystyried pob ynni adnewyddadwy arall mae'r ffigwr yn 65% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, 2009

Mae ynni gwynt Denmarc yn cyflenwi 19% o drydan y wlad (5052 o dwrbeini ym mis Mai 2010)

Mae Ffrainc, lle nad oes dim ond nifer fechan iawn o dwrbeini, wedi cyhoeddi cynlluniau i godi 600 o dwrbeini gwynt oddi ar yr arfordir (Medi 2010)

Mae'n fwriad gan Sweden i fuddsoddi mewn 1100 o dwrbeini ar y tir

Mae'r Almaen a Denmarc yn arwain y ffordd o ran dulliau eraill o gynhyrchu ynni adnewyddadwy, Denmarc trwy greu systemau gwresogi ardal a'r Almaen trwy ynni solar.

Yn Malmo, yn Sweden, ceir maestref yn ymyl yr harbwr lle defnyddir 100% o ynni adnewyddadwy.

Lansiodd cwmni o Galiffornia, 'Better Place', brawf cyhoeddus o ddull o ailwefru cerbydau trydan yn Tokyo ym mis Ebrill 2010. Gwneir hyn mewn gorsaf gyfnewid batris awtomataidd sy'n golygu y gall modurwyr ailwefru mewn ychydig funudau yn hytrach na chymryd oriau lawer i ailwefru eu batris.

Mae 100 o orsafoedd ailwefru 'Better Place' yn cael eu treialu yn Copenhagen.

Mae'r 4,000 o ynyswyr yn Samso, Denmarc, wedi lleihau eu hôl troed carbon 140% er 1997 trwy waredu hen gynhyrchwyr tanwydd ffosil a chodi gorsafoedd ynni adnewyddadwy sydd oll yn eiddo i berchnogion lleol ar y cyd neu unigolion gyda chymorth buddsoddiad o £40m gan y Llywodraeth, yr UE a chyfraniadau lleol sy'n gyfystyr â £10k per capita.

Mae'r UE a'i 27 o wladwriaethau sy'n aelodau wedi ymrwymo i sicrhau 15% o gynnyrch ynni trwy wynt erbyn 2020 a 50% erbyn 2050. Ar hyn o bryd mae'r Almaen, Sbaen, Yr Eidal, Ffrainc a'r DU ar y blaen o ran cynhyrchu ynni gwynt ac mae Portiwgal yn gwneud camau breision i'r un cyfeiriad.

Yr amcangyfrif presennol yw bod 200,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn y diwydiant ynni adnewyddadwy ar draws Ewrop ac y gallai'r ffigwr hwn gynyddu i 450,000 erbyn 2020.

Os ydych am wybodaeth am y datblygiadau diweddaraf o ran ynni adnewyddadwy ac effiethlonrwydd ynni, yna, ewch i: www.guardian.co.uk/globalcleantech100

Sylw

Mae'r Sefydliad Annibynnol ar gyfer Polisi Amgylcheddol Ewropeaidd (SAPA/IEEP) wedi cyfeirio ar gynlluniau i annog modurwyr Ewropeaidd i ddefnyddio mwy o fiodanwyddau ac y gallai hynny olygu rhoi'r gorau i gynhyrchu bwydydd mewn ardal mor fawr ag Iwerddon erbyn 2020, sef rhwng 4.1m – 6.9m hectarau. Dywed yr awduron, yn ychwanegol, y bydd neilltuo tir o'r newydd i wneud iawn am fwyd y rhoddwyd y gorau i'w gynhyrchu yn arwain at rhwng 27m a 56m tunnell yn ychwanegol o allyriadau CO_2 sy'n gyfystyr â gosod 26m o gerbydau ar y ffordd. Daw'r awduron i'r casgliad yn hytrach na mewnforio'r genhedlaeth gyntaf o fiodanwyddau er mwyn bodloni targedau ynni adnewyddadwy'r UE fe ddylid hyrwyddo'r defnydd o fiodanwyddau uwch, cerbydau trydan neu effeithlonrwydd ynni. Yn ôl Cyfeillion y Ddaear mae biodanwyddau'n achosi mwy o allyriadau na'r hyn a achoswyd cynt. (Guardian, 10/11/2010, tudalen 6)

GWASTRAFF AC AILGYLCHU

Datganiadau Safbwynt RhASB:

GWASTRAFF ac AILGYLCHU

Datganiadau Safbwynt

- Mae RhASB yn cefnogi gostyngiadau sylweddol mewn gwastraff yn ei holl ffurfiau yn ogystal â chymryd pob cyfle posib i ailgylchu ac ailddefnyddio.

Gweithredu:

- Bydd RhASB yn dadlau dros gofnodi a chyhoeddi data dechreuol, targedau cyfredol ac arferion rheoli gwastraff ac ailgylchu yn y sir
- Bydd RhASB yn annog mentrau gan reolyddion, cynhyrchwyr a dosbarthwyr i leihau'r defnydd o ddeunydd pacio, yn arbennig plastig
- Bydd RhASB yn annog gweithredu Cyfarwyddebau sy'n ffafrio ailgylchu lleol a chyfrifol o ddeunydd gwastraff
- Bydd RhASB yn dadlau dros ddatblygu prosiectau rheoli gwastraff lleol megis cynlluniau compostio cymunedol.

Polisïau Cyfredol

Polisïau Lleol:

Bwriad Strategaeth Gwastraff Trefol Cyngor Sir Penfro yw lleihau, ailgylchu a chompostio cymaint o wastraff ag sy'n bosib a fydd yn lleihau swm y gwastraff dros ben fydd angen ei drin ond ni fydd hyn yn gwaredu'r angen am drin gwastraff dros ben. Dull Cyngor Sir Penfro o drin gwastraff dros ben yw defnyddio technoleg 'Ynni o wastraff'.

Polisïau Cenedlaethol

Mae LlCC yn ceisio datblygu cyfres o fesurau i atal gwastraff a lleihau swm y gwastraff a gludir i safleoedd tirlenwi trwy gynyddu dulliau o ailgylchu, compostio a threuliad anaerobig.

Mae'r Strategaeth Gwastraff diwygiedig, 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', Mehefin 2010, yn nodi amcanion a thargedau polisïau tymor hir ar gyfer 2025 a 2050. Bydd gweithredu yn cael ei gyflawni trwy gynlluniau sector a ddatblygir ar y cyd â 'buddiolwyr' rhywbryd eto.

Mae'r strategaeth yn fframwaith tymor hir ar gyfer Cymru sy'n disgrifio'r canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y bydd effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff yn ei gyflawni, a sut y byddan nhw'n cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy. Mae'n cynnig manylion am egwyddorion, polisïau a thargedau ar lefel uchel. Cynigir dwy garreg filltir sef 2025 a 2050

Erbyn 2050 y bwriad yw sicrhau 'sero gwastraff':
"byddwn o leiaf yn lleihau effaith gwastraff yng Nghymru i'n terfynau amgylcheddol gan sicrhau y bydd y gwastraff a gynhyrchir yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu fel adnodd".

Datblygir dulliau o weithredu mewn cynlluniau sector a fydd yn disgrifio swyddogaeth y sector, Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac eraill, wrth wireddu'r canlyniadau, targedau a pholisïau Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Y Cynllun Sector Trefol – Rhan 1 – cyflwynwyd ymateb ymgynghorwyr ym mis Medi 2010 ac mae'r cynllun terfynol yn debyg o gael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2011.

Mae LlCC wedi cynnig Mesur, Mesur Gwastraff Arfaethedig (Cymru) i gyflwyno darpariaethau i leihau'r swm o wastraff a sbwriel yng Nghymru ac i gyfrannu tuag at drefniadau rheoli gwastraff mwy effeithiol yng

Nghymru. Bydd y Mesur yn cyrraedd rhan 3, ystyried diwygiadau mewn cyfarfod llawn ar Dachwedd 2, 2010 a phan gaiff ei dderbyn bydd: yn gosod tâl ar fagiau cario un defnydd, yn gwneud targedau gwastraff yn statudol, gwahardd gollwng gwastraff mewn safleoedd tirlenwi ac yn mynnu cynlluniau rheoli gwastraff safle.

Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru i gyflawni cymaint o ailgylchu a chompostio â phosib a chyrraedd targedau. Os na chyrhaeddir y targedau bydd gan LlCC y dewis o gyflwyno cosbau ariannol.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru i gasglu gwastraff bwyd ar gyfer compostio trwy dreuliad anaerobig i greu gwres a phŵer a biowrtaith.

Amcan Strategaeth Gwastraff LlCC yw lleihau swm y gwastraff yn y lle cyntaf trwy annog pobl i fod yn fwy craff wrth siopa ac i ailddefnyddio eitemau cyn prynu rhai newydd yn eu lle.

DU

Bwriada Centrica osod peiriant ynghlwm wrth waith carthffosiaeth Didcot a fydd yn cynhyrchu nwy adnewyddadwy ar gyfer ei ddefnyddio mewn cartrefi; hwn fydd y cyntaf o'i fath yn y DU. Bydd hwn yn brosiect ar brawf i brofi gallu'r dechnoleg a bydd yn cyflenwi nwy i 200 o gartrefi.

Mae bragdy Adnams yn Suffolk wedi agor cyfleuster treuliad anaerobig yn defnyddio slyri sy'n wastraff a fydd yn darparu nwy adnewyddadwy ar gyfer 235 o gartrefi.

Undeb Ewropeaidd:

Mae Cyfarwyddeb Tirlenwi'r UE (1999/31/EC) yn Gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi'i chyhoeddi gan yr Undeb Ewropeaidd i'w gweithredu gan y gwladwriaethau sy'n aelod o'r Undeb.

Mae'r Gyfarwyddeb Tirlenwi ar gyfer y DU yn gosod targedau ar gyfer lleihad cynyddol o wastraff trefol bioddiraddadwy sy'n cael ei ddanfon i'w waredu ar safleoedd tirlenwi. Sefydlwyd targedau ar draws yr UE ar gyfer 2006, 2009 a 2016 ar gyfer lleihau gwastraff trefol bioddiraddadwy. Am fod y DU yn cychwyn o safle lle'r oedd dros 80% o'r gwastraff hwn yn cael ei dirlenwi yn 1995, rhoddwyd pedair blynedd o ddirymiad ar y targedau hyn, a thargedau gwastraff bioddiraddadwy'r DU yw:

- Erbyn 2010 rhaid i'r gwastraff bioddiraddadwy a dirlenwir cael ei leihau i 75% o'r hyn a gynhyrchwyd yn 1995.
- Erbyn 2013 rhaid i'r gwastraff bioddiraddadwy a dirlenwir cael ei leihau i 50% o'r hyn a gynhyrchwyd yn 1995.
- Erbyn 2020 rhaid i'r gwastraff bioddiraddadwy a dirlenwir gael ei leihau i 35% o'r hyn a gynhyrchwyd yn 1995. (Petai'r targed wedi'i gyrraedd erbyn 2016 fydd y dirymiad ddim yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y targed hwn)

Cyflwynwyd y Cynllun Lwfansau Tirlenwi yng Nghymru o dan ddarpariaeth y Rheoliadau'r Cynllun Tirlenwi (Cymru) 2004 (y Rheoliadau), sy'n gweithredu yng Nghymru, y Ddeddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003 (WET Act). Mae'r ddeddf hon yn trawsosod i gyfraith y DU ofynion Erthygl 5 o Gyfarwyddeb y Cyngor Ewropeaidd (1999/31/EC) ynghylch tirlenwi gwastraff (y Gyfarwyddeb Tirlenwi).

Mae'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi yn gosod mwyafswm y tunelli o wastraff bioddiraddadwy y gall awdurdodau ei ddanfon i safleoedd tirlenwi ynghyd â tharged sy'n gostwng fesul blwyddyn. Bydd methiant i gydymffurfio â'r targedau hyn yn arwain at ddirwyon.

Arfer

Lleol;

Mae Cyngor Sir Penfro yn darparu ystod o wasanaethau ailgylchu er mwyn lleihau swm y gwastraff a ddanfonir i dirlenwi:

Mae gwasanaeth ailgylchu "Bag Oren" ar gael i bob aelwyd ar gyfer gwaredu amrywiaeth o wastraff sych y gellir ei ailgylchu. Caiff y gwaith didoli'r gwastraff ei wneud gan AJ Recycling ym mhentref Boncath a SITA yn Withyhedge, sy'n gwahanu'r amrywiol fathau o wastraff, a hyd y mae'n bosib, yn ei ddanfon at gyfleusterau ailgylchu ar draws y DU. Does dim marchnad ar gyfer rhai mathau o blastig ac felly nid yw'n bosib eu hailgylchu ar hyn o bryd (e.e. gorchuddion amaethyddol a ffilm blastig).

Caiff gwastraff bwyd ei gasglu wrth hanner y tai domestig a'i ddanfon at gyfleuster treulydd anaerobig sy'n cynhyrchu ynni a threuliad a gaiff ei wasgaru ar dir fel gwrtaith.

Lleolir 'Mannau Casglu' deunydd ailgylchu o fewn cymunedau ar gyfer casglu amrywiaeth o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn cynnwys caniau, gwydr, papurau newydd a thecstilau.

Mae chwe canolfan mwynderau dinesig ac ailgylchu yn darparu cyfleusterau ar gyfer ailgylchu ystod o ddeunyddiau'n cynnwys eitemau trydanol, rwbel, paent, batris, gwastraff gwyrdd, caniau, gwydr, papur, olew peiriant, cardfwrdd, tecstilau, dodrefn, coed, olew coginio a metel sgrap.

Mae'r gyfradd ailgylchu a gyflawnwyd gan Sir Benfro yn 2009/10, er nad yw wedi'i wirio a'i gadarnhau'n allanol eto, yn 40.77%.

Mae fferm yng Ngheredigion yn defnyddio gwastraff fferm i gyflenwi treulydd anaerobig a chaiff yr ynni ei werthu i gwmni bragu lleol.

Mae FRAME, menter ailgylchu dodrefn, a gefnogir gan CSP, yn cyflogi pobl sydd ag anawsterau dysgu gan roi cefnogaeth a phrofiad gwaith iddyn nhw.

Sefydlwyd prosiect 'Scrapyard' gan PLANED er mwyn defnyddio hen ddillad a deunyddiau mewn prosiectau a drefnir gan blant ifanc gan gynnal sioe ffasiwn flynyddol yn Arberth. Caiff y deunydd na chaiff ei ddefnyddio ei ailgylchu.

'Freecycle': menter genedlaethol ar-lein lle gellir cael gwared ar nwyddau nad oes mo'u hangen yn amrywio o offer trydanol i ddodrefn a chompost.

Mae siopau elusen yn y stryd fawr yn gwneud yn siŵr y caiff nwyddau eu hailgylchu a'u hailddefnyddio.

Cenedlaethol
Mae LlCC a'r awdurdodau lleol wedi ymrwymo i losgi gwastraff sydd dros ben (deunydd nad yw'n bosib ei ailgylchu)

Gosodwyd targedau llym i'r holl awdurdodau yng Nghymru trwy 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' a'r Cynlluniau Sector Trefol er mwyn sicrhau na fydd yna wastraff erbyn 2050.

Tabl 1: Targedau Diannod wedi'u cyhoeddi yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Mehefin 2010.

Gwastraff Trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol	**09/10**	**12/13**	**15/16**	**19/20**	**24/25**
Lleiafswm lefelau o baratoi ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu/compostio (neu Dreulio Anaerobig) ar gyfer gwastraff trefol. **Mae LlCC yn ymgynghori ynghylch y lefelau lleiafswm arfaethedig o gompostio (neu TA) o wastraff bwyd wedi'i ddidoli o geginau yn Y Cynllun Sector Trefol – Rhan 1**	40%	52%	58%	64%	70%
Lleiafswm canran o baratoi ar gyfer ailgylchu/ailddefnyddio/compostio dylai ddeillio o ddidoli yn y man cyntaf (ar y rhiniog, ar y safleoedd casglu)	80%	80%	80%	80%	80%
Mwyafswm lefel o ynni o wastraff o wastraff trefol ar gyfer awdurdodau lleol unigol.	-	-	42%	36%	30%
Mwyafswm lefelau o dirlenwi	-	-	-	10%	5%
Lleiafswm lefelau ar gyfer paratoi i ailddefnyddio (eithrio cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff) **LlCC yn cynnig cynnal ymchwil i adeiladu ar y targed hwn yn y Cynllun Sector Trefol – Rhan 1**		0.4%	0.6%	0.8%	1.0%

Mae LlCC a'r awdurdodau lleol wedi ymrwymo i ddefnyddio technoleg 'ynni o wastraff' ar gyfer gwastraff dros ben (deunydd na ellir ei ailgylchu)

DU:

Mae gan Gyngor Sir Gwlad yr Haf 'Gofrestr Gwastraff' sy'n monitro a chofnodi 'trywydd' yr holl wastraff a gaiff ei gasglu a'r modd y caiff ei ailgylchu.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol Lloegr weithredu system caniatâd gwaredu gwastraff adeiladu. Nid yw hyn yn bodoli yng Nghymru.

Mae Cyngor Windsor a Maidenhead wedi treialu a mabwysiadu'r polisi er mwyn talu'r cyhoedd am ailgylchu ac mae hynny wedi lleihau gwastraff domestig yn ddirfawr.

Sylwadau:

Y duedd yn y DU yw i'r awdurdodau lleol losgi gwastraff ond mae hyn yn wastraffus ac yn arwydd o ofn mentro i ddefnyddio dulliau technolegol newydd o gymharu â gwledydd Ewropeaidd eraill. Dywed yr Ymgyrch Dros Wir Ailgylchu mai'r llosgydd yw'r eliffant yn yr ystafell am fod y cwmnïau sy'n gweithredu llosgyddion yn dibynnu ar wastraff cymysg ac mae awdurdodau lleol, o dan y trefniadau presennol, wedi ymrwymo'n gytundebol am 25 mlynedd gan wynebu cosbau os na fedran nhw gyflenwi'r swm angenrheidiol o wastraff. Am fod rheoliadau ailgylchu wedi'u bwriadu i leihau'r swm o wastraff ar gyfer ei waredu fe fydd llai ar gael i'w losgi a bydd yn ofynnol i drethdalwyr lleol y Cynghorau wynebu taliadau ychwanegol, yn ôl Yr Ymgyrch Dros Wir Ailgylchu, i dalu am y cosbau hyn..

Yn y DU caiff mwy na chwarter y bwyd a brynir gennym ei daflu heb ei agor ac mae hynny'n £10bn o fwyd wedi'i wastraffu neu £420 fesul aelwyd. Caiff 5.9m tunnell ei roi mewn safleoedd tirlenwi!!

Ewrop/Rhyngwladol

Mae gan wledydd Gogledd Ewrop megis Denmarc, Yr Almaen a Sweden agwedd mwy cyfrifol tuag at reoli gwastraff..

Mae maestref newydd yn Malmo yn casglu'r holl fwyd domestig a wastraffir (trwy system pibell sugno) a'i ddefnyddio i greu methane yn danwydd ar gyfer bysiau lleol.

Mae llawer o gymunedau yn Denmarc yn defnyddio systemau treuliant anaerobig i drosi gwastraff bwyd yn fiodanwydd i gynhyrchu gwres a phŵer neu'n defnyddio tanwydd moduron sydd wedi'i ddefnyddio ynghyd â biowrtaith i'w wasgaru ar gaeau (sy'n arbed yr ynni sydd ei angen i wneud gwrtaith anorganig).

Yng Ngwlad Belg mae'r llywodraeth yn rhoi cymorthdaliadau i bobl gadw ieir sy'n bwyta gwastraff bwyd.

Yn Wilmington, Delaware, mae 18,000 o gartrefi yn rhan o gynllun pwyntiau ailgylchu a gwobrwyo a drefnir gan y Banc Ailgylchu. Mae cyfanswm o filiwn o bobl yn yr UDA ynghlwm yn hyn. Mae hyn yn galluogi teuluoedd i sicrhau gwobrau sy'n werth £135 fesul blwyddyn i'w defnyddio yn y siopau manwerthu. Mae'r penderfyniad i gymryd rhan yn y cynllun yn cael ei wneud gan awdurdodau lleol. Mae gan y Banc Ailgylchu cangen yn y DU erbyn hyn (www.recyclebank.com)

TRAFNIDIAETH

Datganiadau Safbwynt RhASB:

- Mae RhASB yn cefnogi'r datblygiad a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol fel modd o leihau'r defnydd o gerbydau, hyrwyddo mynediad a sicrhau cynhwysiad cymdeithasol

- Mae RhASB yn cefnogi datblygu a chynnal a chadw llwybrau troed a llwybrau seiclo fel dewis amgen i'r defnydd o gerbydau preifat ac fel modd o gryfhau cymunedau cynaliadwy

- Mae RhASB yn cefnogi darparu a defnyddio technoleg cyfathrebu gwybodaeth er mwyn lleihau'r angen i deithio (cynadledda ffôn a fideo)

Gweithredu

- Bydd RhASB yn mynd ati i annog a hyrwyddo cerdded, defnyddio bysus, cynlluniau rhannu cerbydau, gwario mwy ar orsafoedd rheilffordd a bysiau (yn cynnwys gwell mynediad a chyfleusterau teithwyr),
- gwella gallu ac ansawdd cerbydau rheilffordd a'r isadeiledd.

- Bydd Ymddiriedolwyr RhASB, hyd y mae'n bosib, yn rhannu cerbydau wrth gyflawni gwaith RhASB.

- Bydd RhASB yn mabwysiadu polisi hawlio milltiroedd teithio cerbyd a fydd yn ffafrio rhannu cerbydau gan wneud teithiau 'gyrrwr yn unig' yn aneconomaidd.

Polisïau Cyfredol

Lleol

Mae Sir Benfro yn aelod o Gonsortia Trafnidiaeth Integredig De Orllewin Cymru (SWWITCH) sydd wedi cyhoeddi strategaeth yn ddiweddar gyda phwyslais cryf ar trafnidiaeth cynaliadwy yn y rhanbarth. (gweler Consortia Cludiant Rhanbarthol isod)

Cenedlaethol:

Mae Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 'Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl', Mai 2008, yn hyrwyddo egwyddorion mynediad i bawb a mwy o fudoledd yn ogystal â mynegi'r amcanion y dylai teithio fod yn rhwydd a chynaliadwy ac yn cefnogi twf economaidd. Yn ogystal â hyrwyddo ac annog mudoledd mae'r strategaeth yn ceisio lleihau'r pwysau ar y system drafnidiaeth trwy annog gweithio o gartref a'r defnydd o gynadledda dros y ffôn a sicrhau, hyd y mae'n bosib, y dylai datblygiadau newydd gael eu gwasanaethu'n dda gan gyfleusterau ar gyfer cerdded, seiclo a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r strategaeth hon yn darparu fframwaith ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, Mawrth 2010, sy'n nodi'r ystod gyflawn o fesurau ar gyfer datblygu gwell rhwydwaith drafnidiaeth gynaliadwy ac integredig yng Nghymru.

Mae Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn darlunio'r gweithredoedd manwl a wneir gan y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r awdurdodau lleol cyfansoddol. Cyflwynodd y CTRh/RTC ar gyfer De Orllewin Cymru gynlluniau ym mis Medi 2009 ac ynddynt nodir yr amcanion canlynol:
Gwella ansawdd yr awyr,
Gwella mynediad i bawb, a
Gwella ystod, ansawdd ac ymwybyddiaeth o ddewisiadau teithio.

Cynyddodd uchafswm llif trafnidiaeth ar hyd yr M4 yng Nghymru 13% rhwng 2001-2008 (ffynhonnell: Adran Drafnidiaeth),.

DU

Disgwylir i'r nifer o gerbydau yn y DU i gynyddu 30% o fewn 30 mlynedd *(15 /9/10 Guardian). Bwriad y Llywodraeth yw lleihau C02 mewn trafnidiaeth 14% o fewn 10 mlynedd. Ynghyd â cherbydau trydan a hybrid mae yna bosibilrwydd o farchnadoedd carbon a fydd yn neilltuo lwfansau carbon blynyddol. Nid yw adeiladu mwy o ffyrdd yn debyg o fod yn ddewis ond bydd y pwyslais ar ddefnyddio'r ffyrdd presennol yn fwy effeithlon trwy systemau trafnidiaeth deallus a fydd yn galluogi cynnydd mewn dwysedd trafnidiaeth tra bydd y symud yn dal yr un fath. Bydd llai o reolaeth gan yrrwr dros ei gerbyd ac mae'n bosib y caiff ei gyfeirio tuag at ffordd deithio benodol a thrwy dechnoleg bydd ei gyflymdra yn cael ei reoli.

Er 1970 cynyddodd allyriadau carbon o drafnidiaeth 89% i 134.9mt, (Ffynhonnell DEFRA 2007)

Arfer

Lleol

Mae gan Rwydwaith Bysiau Arfordirol Sir Benfro system drafnidiaeth effeithlon ac arloesol sy'n anelu i sicrhau mwy o ddefnydd o ddulliau mwy cynaliadwy ac iachus o deithio ac mae'n cynnig gwasanaeth gwerthfawr i gymunedau lleol, ymwelwyr a cherddwyr.

Y cyfraniad diweddaraf i'r amcan hwn yw'r fflyd fechan o fysiau newydd sy'n medru derbyn cadeiriau olwyn ar gyfer y Rhwydwaith sy'n defnyddio tanwydd olew llysiau wedi'i ailgylchu. Mae'r defnydd o olew llysiau yn lleihau allyriadau carbon cerbyd gymaint â 95% o gymharu â pheiriant disel arferol ac mae ar gael wrth 'Olew Llysiau Moduro' yng Ngogledd Sir Benfro. Prynwyd y fflyd o hanner dwsin o fysus gyda chymorth ariannol gan LlCC/UE ac addaswyd y peiriannau gan 'Regentec' o Berkshire.

Defnyddir pedwar o'r bysus ar deithiau'r Gwibiwr Pâl, Roced Poppit a Gwibiwr Strwmbwl a dau fws ar deithiau Gwibiwr yr Arfordir yn ne'r sir. Gwneir y gwaith marchnata gan Bartneriaeth Lonydd Glas Sir Benfro.

'Cyswllt y Ddraig Werdd': Sefydlwyd gan Gymdeithas Trafnidiaeth Gwledig Preseli i ddarparu teithiau lleol a chyswllt â gwasanaethau bws cyfredol o Arberth i Aberteifi. Rhaid gwneud trefniant i gadw lle ddiwrnod ymlaen llaw. (www.greendragonbus.co.uk)

Cenedlaethol

Mae grwpiau trafod LlCC/CDC (Comisiwn Datblygu Cynaliadwy) ar Ranbarthau Carbon Isel wedi cofnodi nifer o fentrau trafnidiaeth amgen posib. Yn eu plith: datblygiadau newydd yn ffafrio'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, cefnogaeth TGCh ar gyfer gweithio o'r cartref, darparu llwybrau cerdded a seiclo, asiantaethau cyhoeddus i bwrcasu cerbydau trydan a hybrid ac i ddefnyddio biodanwyddau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus. Annog rhannu cerbydau trwy ddynodi llefydd parcio mewn adeiladau sector gyhoeddus. Ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gyllido cynlluniau teithio ar gyfer datblygiadau mawr newydd. Treialu biodanwyddau ar gyfer cerbydau sy'n cludo nwyddau trwm (HGV). Newid cludo nwyddau oddi ar y ffyrdd i'r rheilffyrdd neu ar y môr

DU

Yng Nghaergrawnt gwneir tua 26% o deithiau ar gefn beic.

Ewropeaidd/Rhyngwladol

10% o'r holl deithiau a wneir yn yr Almaen ar gefn beic (y ffigwr ar gyfer y DU yw 2%). Y ffigwr ar gyfer yr Iseldiroedd yw 27%. Mae'r ffigwr yn 37% yn Copenhagen.

CYNHYRCHU BWYD A CHYMERIANT

Datganiadau Safbwynt RhASB:

- Mae RhASB am weld lleihad yn effaith amgylcheddol andwyol cynhyrchu a chymeriant bwyd; cefnogir arferion amaethu amgylcheddol a moesegol, er enghraifft, ffermio organig.

- Mae RhASB yn cefnogi cynhyrchu bwyd yn lleol a chymeriant ohono'n lleol ynghyd â nwyddau sydd yn eu tro'n cefnogi economïau lleol

- Dymuniad RhASB yw gweld datblygiad pellach a mwy o ddefnydd o gynlluniau amaeth-amgylchedd ar draws y sir am eu bod er lles cynhyrchwyr a defnyddwyr yn ogystal ag ecosystemau a bioamrywiaeth.

- Mae RhASB yn cefnogi ffermio helaeth sy'n hyrwyddo iechyd a lles ac a all hefyd wneud cyfraniad arwyddocaol i gael gafael ar C02 yn y pridd.

Gweithredu

- **Bydd RhASB yn hyrwyddo datblygiadau mewn ffermio helaeth a chynlluniau amaeth-amgylchedd.**

- **Bydd RhASB yn ffurfio cysylltiadau gyda rhwydweithiau amaethyddol a mudiadau yn y sir er mwyn monitro a gwerthuso datblygiadau ac arferion yn yr economi wledig.**

- **Bydd RhASB yn dadlau dros ddarparu rhandiroedd gan awdurdodau lleol ac yn dadlau dros fwy o gymorth gan gyrff statudol i fentrau bwyd cymunedol.**

- **Bydd RhASB yn cefnogi'r mudiad Trefi Trawsnewid.**

- **Bydd RhASB yn hyrwyddo arferion lleol o ran cynhyrchu a chymeriant bwyd.**

Polisïau Cyfredol

Lleol

Mae Cyngor Sir Penfro yn cefnogi datblygu Marchnad Ffermwyr ar draws y sir.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu rhandiroedd ond mae'r rhestr aros am randiroedd yn y DU tua 100,000.

Cenedlaethol

CCC (Cynulliad Cenedlaethol Cymru)/LlCC: Mae byw'n iach a dewis bwyd ffres wedi'i gyflenwi'n lleol yn hytrach na bwyd wedi'i brosesi yn un o ymrwymiadau LlCC ar gyfer gwella iechyd a lles tymor hir pobl Cymru. I'r perwyl hwn sefydlwyd Rhaglen Gydweithredol Tyfu Bwyd Cymunedol yn ogystal â Chynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned, Gorffennaf 2010 (gweler gwefan LlCC, Adran Amgylchedd a Chefn Gwlad) yn ogystal â chwblhau astudiaeth ar argaeledd rhandiroedd (ar gael o'r tudalennau cynaladwyedd ar wefan CCC).

Comisiynwyd ymgynghorwyr gan y Gweinidog Amaeth yn ddiweddar i ystyried amrywiaeth o bosibiliadau o ran Defnydd Tir a Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru (Grŵp DTNH, Mawrth 2010). Roedd yr Adroddiad Terfynol yn canolbwyntio ar Bosibilrwydd 5: sy'n annog mwy o ffermio dwys yng Nghymru gyda'r tebygolrwydd o gadw gwartheg godro mewn siediau 24 x 365. Mae'r argymhelliad hwn wedi esgor ar gryn dipyn o drafod.

Sylwadau

Mae'n rhaid i ni gofio bod rhwng 45%-90% o elw ffermwyr Cymru yn dibynnu ar gymorthdaliadau'r Llywodraeth/UE ac, felly, y defnyddiwr a'r Llywodraeth sy'n penderfynu faint o fwyd a gynhyrchir ac nid y tir feddiannwr.

O ystyried bod 90% o fwydydd Cymru yn cael eu mewnforio a 95% o gig oen Cymru'n cael ei allforio (adroddiad DTNH) mae'n bosibl ein bod yn gweld cynhyrchu bwyd yng Nghymru yn cael ei ailstrwythuro gan bwyll bach, ffermio dwys anghynaliadwy ar gyfer y farchnad ryngwladol a chynhyrchu domestig a lleol helaeth a chynaliadwy ar gyfer y farchnad gartref.

DU

Roedd adroddiad gan Chatham House ar gyfer Hilary Benn, yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd, yn 2008, yn proffwydo y byddai yna newid o ddewisiadau bwyd unigol i system lle byddai'r Llywodraeth a Diwydiant yn gorfod sicrhau y bydd y bwyd a werthir yn adlewyrchu anghenion ehangach cymdeithas erbyn 2020. Mae diogelwch bwyd yn fater o bwys am na ellir cymryd cyflenwad bwyd yn ganiataol. Yr arwyddion cynnar o dueddiadau difrifol o ran cyflenwad a galw yw'r cynnydd ym mhris gwenith yn ystod 2010 ac ymgais Tsiena i brynu mwynfa ffosffad yng Nghanada er mwyn bod yn siŵr o gyflenwadau gwrtaith wrth i'r wlad wynebu lleihad mewn tir âr a chyflenwad dŵr tra bo'r boblogaeth yn cynyddu.

Gwrthwynebir y duedd tuag at fwy o ffermio dwys gan ddadleuon dros ffermio helaethach. Dadleua G Harvey fod ffermio ar sail pori glaswellt yn creu bwyd o well ansawdd a bod y dull

hwnnw yn well o ran y tir a'r anifeiliaid eu hunain. Mae ffermio dwys sy'n ddibynnol ar wrtaith a thanwyddau ffosil wedi arwain at ddirywiad tir, llygru dŵr a cholli bioamrywiaeth yn ogystal â gollwng carbon deuocsid i'r atmosffer. Dadleua y gall pridd da, wedi'i gynnal trwy well defnydd o anifeiliaid sy'n pori, gymryd C02 allan o'r atmosffer a dileu'r bygythiad o dwymo bydeang. Byddai porfeydd cyfoethocach yn lleihau'r allyriadau methane o anifeiliaid sy'n pori (G Harvey, 'Y Caeau Carbon', 2008)

Mae'r Llywodraeth Glymblaid bresennol wedi cynnig sefydlu grŵp adolygu ffermio, wedi'i gadeirio gan Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr, a fydd yn edrych ar reoleiddio amaeth a'r system gymorthdaliadau.

Ewropeaidd/Rhyngwladol

Bydd y Polisi Amaeth Cyffredin a'r trefniadau cymorthdaliadau Ewropeaidd yn cael eu hadolygu yn 2014 ac mae trafodaethau gyda'r gwladwriaethau sy'n Aelodau ar y gweill. Y tebygolrwydd yw y bydd y lefelau

cymhorthdal yn cael eu lleihau yn y tymor hir a'u cysylltu â rhaglenni rheolaeth amgylcheddol neu stiwardiaeth tir.

Ar hyn o bryd mae 125 o fentrau amgylcheddol cydweithredol yn gweithredu ar draws yr Iseldiroedd. Mewn un rhanbarth yn y wlad mae un fenter gydweithredol yn gyfrifol am ardal o 50,000ha a 1,000 o unedau ffermio. Yr amcan yw datblygu dulliau cydweithredol i weithredu polisïau amaeth-amgylchedd a gwireddu mesurau amaeth-amgylcheddol. Am fwy o fanylion gweler Adolygiad Cefn Gwlad UE Rhif 2, Rhagfyr 2009. Galwch heibio safle Rhwydwaith Cefn Gwlad Cenedlaethol Yr Iseldiroedd: www.info@netwerkplatteland.nl. Ceisiwch gael gafael ar waith Jeremy Franks, Prifysgol Newcastle, sydd wedi edrych ar y posibilrwydd o fabwysiadu dull yr Iseldiroedd yn y DU.

Amcangyfrifir y bydd bwydo poblogaeth o 9 biliwn erbyn 2050 yn gofyn am ddwywaith cymaint o ddŵr ar gyfer amaethyddiaeth ond, wedyn, dim ond 2.5% o adnoddau dŵr y byd sy'n ffres ac mae dihalwyno yn defnyddio llawer o ynni. Defnyddia gorsafoedd ynni niwclear hyd at 83% yn fwy o ddŵr fesul megawatt a gynhyrchir na gorsafoedd ynni sy'n defnyddio tanwydd glo.

Arfer

Lleol

Cynhelir 'Gŵyl Bwyd Gwir Wyllt' ger Tyddewi yn flynyddol sy'n tynnu cynhyrchwyr bwydydd organig a bwydydd sydd wedi'u cynhyrchu'n gynaliadwy yn lleol at ei gilydd.

Sefydlwyd Cymuned Amaeth Organig Cae-rhys ar lain o dir dwy erw ger Berea lle caiff y cynnyrch a gynaeafir yn wythnosol ei rannu rhwng aelodau'r cynllun sy'n talu tâl aelodaeth blynyddol yn ogystal â thanysgrifiad misol.

Yn Ystagbwll mae Chris James yn defnyddio'r dull 'Glaswellt ac Elw' yn seiliedig ar batrwm Seland Newydd o gynhyrchu llaeth sy'n hyrwyddo gwell gweirgloddiau gan greu bwydydd iachach, gwell glaswellt, gwell bioamrywiaeth ac anifeiliaid sydd eu hunain mewn gwell cyflwr.

Mae Cig Tir Comin Sir Benfro yn fenter ar y cyd rhwng yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a ffermwyr lleol ger Tyddewi sydd wedi cynhyrchu brand sy'n hyrwyddo cadwraeth. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw perchnogion y tir a darparir gwartheg gan ffermwyr lleol i bori'r rhostir ac wrth wneud hynny bodlonir anghenion cadwraeth y cynefin prin. Ystyrir yr eidion a gynhyrchir ar y glaswellt rhannol naturiol yn gig sydd yn blasu'n well ac sydd yn iachach.

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi prynu ffarm ger Niwgwl yn ddiweddar ac maen nhw'n treialu dull sy'n seiliedig ar allu'r tir (math o bridd, ffrydiau dŵr, tanwydd coed ar gyfer y ffarm, ac yn y blaen). Pan fydd gwaith adfer a chadwraeth wedi'i gwblhau bydd y ffarm yn agored i'r cyhoedd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyfres o safonau amgylcheddol ar gyfer ffermydd sydd i'w gweld ar ei wefan.

Fe fu Parc Cenedlaethol Arfordirol Penfro yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu rhandiroedd ar ei dir ei hun. Ar hyn o bryd nid yw'n eglur beth sydd wedi'i gyflawni.

Mae dwy o'r Trefi Trawsnewid yn Sir Benfro, Arberth a Bro Gwaun/Abergwaun wrthi'n cymryd rhan neu yn cefnogi mentrau cynhyrchu bwyd yn lleol trwy gyfrwng rhandiroedd lleol. Mae Rhandiroedd Arberth hefyd wedi dechrau gweithio ar greu perllan gymunedol.
Mentrau Amgylcheddol Cydweithredol.

Cenedlaethol

Am wybodaeth ynghylch mentrau lleol ar draws Cymru, galwch heibio gwefan www.physicalactivityandnutritionwales.org.uk. Mae cylchlythyr ar gael hefyd, 'Bitesize', wrth Iechyd Cyhoeddus Cymru, 14 Heol Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9LJ.

Mae'r Rhaglen Gydweithredol Tyfu Bwyd Cymunedol yng Nghymru yn annog lleihau milltiroedd bwyd ac yn cefnogi tyfu'n lleol a phrynu ffrwythau a llysiau. Sefydlwyd 77 o fentrau cydweithredol tyfu bwyd cymunedol yn 2004/5, ac erbyn hyn mae cyfanswm o 270 yn darparu bwyd ar gyfer 6,500 o deuluoedd ac mae 1,500 o wirfoddolwyr yn rhan o'r mentrau. Gwerthir 11,000 o fagiau ffrwythau a llysiau'n wythnosol (ffynhonnell Gwlad, Medi 2010, tudalen 9).

O dan fenter Glastir bydd ffermwyr yn gymwys i gynnig am gymhorthdal Cynllun Effeithlonrwydd a Lleihad Carbon Amaethyddol i wella effeithlonrwydd a lleihau costau. Un nodwedd o hwn yw talu am gostau gosod system cynaeafu dŵr glaw.

DU

Am wybodaeth ynghylch Rhandiroedd ewch at www.nsalg.org.uk

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gosod nod o ddarparu 1,000 o randiroedd ar ei diroedd ei hun eleni (2010)

*** Sefydlwyd nifer o brosiectau Amaethyddol Cymunedol ar draws y DU ac ymhlith y rhai mwyaf adnabyddus mae:**

Stroud, Swydd Gaerloyw. Mae hwn yn brosiect sydd wedi gosod 23 erw o dir ar les. Egwyddorion y prosiect yw:
i) y defnyddiwr wedi ymrwymo i gynorthwyo'r ffermwr gan sicrhau iddo incwm teg.
ii) y ffermwr yn datblygu iechyd a ffrwythlonder y fferm, y bywyd gwyllt a'r amgylchedd.

Caiff y cynnyrch ei rannu rhwng y defnyddwyr sy'n cefnogi'r prosiect a phan fydd cynnyrch dros ben caiff ei werthu'n lleol.
(www.stroudcommnunityagriculture.org)

www.Futuresfarms.org.uk: enghraifft ysbrydoledig i gynhyrchu bwyd yn gymunedol. Wedi'i sefydlu yn Martins, Hampshire, yn 2004, ar ffurf cydweithfa. 129 o aelwydydd lleol yn trin tir gerllaw'r pentref gan gynhyrchu 45 o lysiau amrywiol, ieir a moch. Gwerthir i bobl leol yn unig gan leihau'r gadwyn gyflenwi i'r eithaf. Nid yw'r trigolion lleol o dan unrhyw orfodaeth i brynu'r cynnyrch. Ar hyn o bryd mae gan y fenter drosiant o £36K ac mae'n cyflogi pedwar garddwr rhan amser.

Ewropeaidd/Rhyngwladol

Yn yr Iseldiroedd mae mentrau cydweithredol amgylcheddol wedi'u hen sefydlu

TREFN LYWODRAETHOL LEOL

Datganiadau Safbwynt RhASB

- Mae RhASB yn cefnogi paratoi polisïau amgylcheddol wedi'u seilio ar ymchwil tryloyw a chymwys ynghyd ag adolygu eu heffeithlonrwydd yn gyson

- Mae RhASB yn cefnogi datblygu a mabwysiadu trefniadau ar gyfer ymgysylltu cymunedol mewn datblygu cynaliadwy o ran llunio polisïau, gwireddu, monitro, adolygu a gwerthuso

- **Mae RhASB yn dadlau o blaid rhaglen o hyfforddiant, datblygiad a chodi ymwybyddiaeth o egwyddorion ac arferion datblygu cynaliadwy**

- **Mae RhASB wedi ymrwymo i benderfyniadau ar y cyd gyda'i aelodau**

- Mae RhASB wedi ymrwymo i hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol a chynnig grym am eu bod yn darparu cyfraniad allweddol tuag at sicrhau cymdeithas ffyniannus sy'n gymdeithasol gyfrifol ac yn gyforiog o adnoddau.

- **Mae RhASB wedi llofnodi Datganiad Trydydd Sector CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) ar Newid yn yr Hinsawdd.**

Gweithredu

- **Mae RhASB wedi ymrwymo ar ran ei Aelodau i weithio gyda'r sectorau preifat, statudol a gwirfoddol er mwyn gwneud yn siwr y bydd safbwyntiau grwpiau amgylcheddol sector gwirfoddol lleol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a chyflawni polisïau lleol a chenedlaethol.**

- **Bydd RhASB yn ymuno â rhwydweithiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol er mwyn cyfrannu i'r datblygiadau a'r trafodaethau ar ddatblygu a gwireddu polisïau amgylcheddol a chynaliadwy.**

- **Bydd RhASB yn gweithio gyda'r sector statudol a gwirfoddol i sicrhau bod ein Haelodau yn cyfranogi yn y broses o ymgysylltu â'r gymuned wrth lunio Cynllun Cymunedol.**

- **Bydd RhASB yn hyrwyddo cyfranogaeth gymunedol a threfn lywodraethu lleol.**

Polisïau Cyfredol

Lleol

Mae Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Benfro wedi ymrwymo i gyfranogaeth gymunedol er mwyn penderfynu pa ddulliau o weithredu allweddol sydd eu hangen i wireddu amcanion y Cynllun Cymunedol. Mae PAVS (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro) wedi'i chomisiynu i ddatblygu rhaglen cyfranogi cymunedol yn ystod 2010.

Cenedlaethol

Comisiynwyd astudiaeth gan LlCC yn ddiweddar i'r 'Opsiynau Polisi ar gyfer symbylu a chefnogi gweithredu cymunedol ynghylch Newid yn yr Hinsawdd'. Y casgliadau oedd:
dim ond cyfran fechan o'r Trydydd Sector sy'n ymwneud â gweithgareddau Newid yn yr Hinsawdd,
mae yna ddiffygion yn yr iaith a ddefnyddir gan lunwyr polisïau a chymunedau,
prinder tystiolaeth ynghylch beth sydd yn effeithiol i sicrhau ymrwymiad ac ymddiddoriad ymhlith cymunedau, a
angen i LlCC neilltuo adnoddau i gynyddu galluoedd a chynnig grym.

Fel rhan o'i ddull o ddelio â Datblygu Cynaliadwy mae LlCC yn awyddus i helpu i ddatblygu galluoedd ymgysylltu cymunedol y sector gyhoeddus trwy'r Byrddau Gwasanaeth Lleol.

Arfer

Lleol

Yn ddiweddar (Haf 2010) cwblhaodd Parc Cenedlaethol Arfordirol Sir Benfro arolwg ymgysylltu cymunedol fel sail ar gyfer datblygu strategaeth ymgysylltu cymunedol.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Benfro ynghyd â Phartneriaeth Cynllunio Cymunedol ac Arweinyddiaeth Sir Benfro wedi ymrwymo i broses o ymgysylltu â'r gymuned er mwyn clustnodi a denu cefnogaeth i'r gweithgareddau hynny a fydd o gymorth i gyflawni amcanion y Cynllun Cymunedol.

Cenedlaethol

Mae Fforwm Amgylcheddol Abertawe (FfAA): yn bartneriaeth annibynnol yn cynnwys aelodaeth eang o unigolion a mudiadau o'r sectorau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus yn cydweithio i ddiogelu a gwella'r amgylchedd. Caiff FfAA ei reoli gan bwyllgor gweithredol etholedig yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdod lleol yn ogystal â chyrff cenedlaethol a lleol (Cyfeillion y Ddaear, Prifysgol Abertawe, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ac yn y blaen). Mae gan FfAA ei ganolfan ei hun sy'n darparu pwynt ffocws ar gyfer gwybodaeth amgylcheddol, addysg a gweithgareddau (www.swanseaenvironmentalforum.net)

DU

Mae Cyngor Dosbarth Oldham wedi datblygu'r cysyniad o gytundebau cilyddol rhwng preswylwyr a darparwyr gwasanaethau. Yn ôl Richard Farnell, Athro Adfywiad Bro ym Mhrifysgol Coventry:

"mae model Oldham yn darlunio cydweithio llwyddiannus rhwng asiantaethau sector cyhoeddus: mae'r rhain yn enghreifftiau ardderchog o gytundebau sydd wedi'u cyhoeddi. Maen nhw'n darparu darlun dymunol o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio'n dda ar faterion strategaeth, bwriad a dyhead".

Yn 2006 roedd Oldham yn arloesi cytundebau bro: cytundebau cilyddol rhwng preswylwyr (pawb, nid tenantiaid tai cymdeithasol yn unig) a darparwyr y sector gyhoeddus i ganiatáu preswylwyr i ddylanwadu ar yr hyn oedd yn cael ei drefnu yn eu hardaloedd.

Roedd y cytundebau'n ymwneud â: tai, yr amgylchedd, cymuned, polisïau ac iechyd. Gweithwyr ymgysylltu lleol wnaeth y gwaith cysylltu â hwyluso cyfranogiad preswylwyr. Goruchwyliwyd y cytundebau, yn yr achos hwn, gan Fargen Newydd i Gymunedau Hathershaw a Fitton Hill. Rhwng 2004 a 2008 roedd y gyfran o breswylwyr a gredai y medren nhw ddylanwadu ar benderfyniadau wedi cynyddu o 15% i 25%, ac fe gynyddodd bodlonrwydd ynghylch yr ardal fel lle braf i fyw o 55% i 71%.

Gwirfoddolodd preswylwyr i fonitro perfformiadau'r gwasanaethau. Sefydlodd y preswylwyr grŵp eirioli o 15 aelod i gyfarfod â'r **PENNAETH GWASANAETHAU** i drafod y safonau cilyddol derbyniol. Seiliwyd

y safonau ar dargedau mewnol blaenorol y grŵp. Cyhoeddwyd cytundebau a bu'r preswylwyr yn cynorthwyo i ddrafftio dogfennau yn rhydd o jargon.

Yn 2009 enillodd Cyngor Barnsley Gwobr Gwasanaeth Cyhoeddus papur newydd y 'Guardian' am 'gynaladwyedd' o ganlyniad yw ymrwymiad i ymgysylltu rheolaidd â'r cyhoedd ar faterion polisi a gweithredu amgylcheddol

Datblygiad o bwys mewn cynnal trafodaeth ystyrlon rhwng asiantaethau cyhoeddus a'u cleientiaid yw'r defnydd o'r rhyngrwyd. Datblygwyd nifer o wefannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

www.FixMyStreet.com,

www.kingscrossenvironment.com

www.TalkAboutLocal.org.uk(mae hwn ar gyfer cynorthwyo i weithio GYDAG awdurdodau lleol)

Mae'r Ganolfan Arweinyddiaeth i Lywodraeth Leol wedi cynhyrchu canllaw a gwefan ar gyfer cynghorwyr ar sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithaasol. Mae'r Ganolfan Arweinyddiaeth i Lywodraeth Leol wedi cynhyrchu canllaw a gwefan ar gyfer cynghorwyr ar sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol www.socialmedia.21st.cc

"Y dasg i gynghorau yw symud o gyfathrebu â'r preswylwyr i gynnal sgwrs â nhw".

Gweler hefyd,

www.bccdiy.com Cafodd hwn ei greu gan rywun oedd am symleiddio gwefan drudfawr Cyngor Dinas. Yr un person (Stef Lewandowski) greodd gyfleuster o'r enw 'Near me' a does dim angen i chi wneud dim mwy na nodi eich cod post i ganfod tudalen o fanylion am wasanaethau defnyddiol ac achlysuron yn eich bro.

www.diycouncil.com gwefan gan Stef y gellir ei ddefnyddio ar gyfer pob Cyngor yn y wlad

Mae gan Ymddiriedolaeth Joseph Rowntree raglen ymchwil wedi'i neilltuo i 'Newid yn yr Hinsawdd a Chyfiawnder Cymdeithasol' (www.jrf.org.uk). O fewn y rhaglen hon ceir nifer o 'ddarnau trafod' ac adroddiadau yn ogystal â phrosiectau ymchwil wedi'u hariannu. Ar hyn o bryd mae'r Ymddiriedolaeth yn gofyn am geisiadau ar bwnc 'Trawsnewid sy'n gymdeithasol gyfiawn i economi a chymdeithas carbon isel'.

ECONOMI

Datganiadau Safbwynt RhASB:

- Mae RhASB yn cefnogi cynhyrchu a chymeriant cynaliadwy yn unol â'r hyn a nodir gan y Comisiwn Ewropeaidd er mwyn lleihau'r defnydd o adnoddau.

- Mae RhASB yn cytuno â honiad y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy bod twf economaidd bellach yn aneconomaidd, am fod y costau'n uwch na'r buddiannau ac, felly, mae'n ofynnol os am greu cymdeithas gynaliadwy i gydnabod y costau hyn yn ogystal â chydnabod y tueddiadau o ran bioamrywiaeth, demograffeg, lefelau dyledion, argaeledd tanwydd a mwynau, iechyd meddwl, lles, ac anghyfartaledd economaidd a chymdeithasol er mwyn ailystyried mewn modd sylfaenol sut y dylid datblygu a rheoli ein heconomi dros y degawdau nesaf.

- Cred RhASB mai'r dull gorau o gynnal gwytnwch yr economi lleol yw trwy roi mwy o gefnogaeth a blaenoriaeth i ddatblygiadau lleol wedi'u cysylltu â marchnadoedd ac anghenion lleol a defnyddio adnoddau lleol, sgiliau a galluoedd cymdeithasol yn hytrach na dibynnu ar farchnadoedd bydeang a buddsoddi rhyngwladol ofer.

Gweithredu

- Mae RhASB yn dadlau o blaid 'adeiladu senario' a fydd yn ymwneud â phob sector yn y sir i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer yr economi erbyn 2050 wedi'i gysylltu â'r gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd gan LlCC/CDC ar 'Rhanbarthau Carbon Isel' a'r Cynllun Gofodol ar gyfer yr Hafan.

- Mae RhASB yn dadlau o blaid, ac yn barod i gefnogi 'gwerthusiadau cynaladwyedd' wedi'u gwneud gan asiantaethau statudol megis awdurdodau cynllunio lleol gan gydnabod ac wynebu'r tyndra rhwng 'datblygiad economaidd' ac egwyddorion cynaladwyedd yn unol â'r hyn a gynghorir gan LlCC a CDCDU.

- Bydd RhASB yn cydweithio â mudiadau llunio polisïau a busnesau gyda'r bwriad o annog gwireddu'r polisïau a'r arferion hynny sy'n gwneud y defnydd lleiaf posib o adnoddau prin.

Polisi Cyfredol

Lleol

Nid yw RhASB yn ymwybodol o unrhyw drafodaethau o fewn Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordirol Penfro na chwaith o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ynghylch ffurfio polisi economaidd strategol

yn seiliedig ar bum egwyddor datblygu gynaliadwy CDCDU. Mae'r Cynllun Cymunedol yn canolbwyntio ar: amrywio'r economi i leihau gorddibyniaeth ar nifer fechan o gyflogwyr mawr, potensial y sector ynni adnewyddadwy morwrol i greu swyddi, a dymuniad i sicrhau dyraniad tecach o gyfleoedd cyflogaeth.
Mor bell ag y bydd polisi lleol o bosib yn esblygu trwy adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy, yna, fe all y trafodaethau sydd ar y gweill ynghylch Cynllun Gofodol Cymru ar gyfer yr Hafan, a'r gwaith sy'n cael ei wneud ynghylch Rhanbarthau Carbon Isel, brofi'n gynhyrchiol

Cenedlaethol

Mae 'Economi yn Ffynnu' (2005) yn dangos bod Cymru wedi llwyddo i leihau diweithdra a chynyddu allforion ynghynt na gweddill y DU. Mae'r ddogfen hon, yn unol â'r mwyafrif o weledigaethau, yn ceisio adeiladu ar y tueddiadau hyn er mwyn sicrhau llwyddiant economaidd pellach a sicrhau twf cyson a chynaliadwy ac o ganlyniad "cefnogi ein cymunedau difreintiedig".

Tra bo cost byw yng Nghymru 7% yn is na'r cyfartaledd ar draws y DU mae codi ansawdd enillion i gyfateb â'r cyfartaledd yn y DU yn nod. Mae'r sector gyhoeddus yn chwarae rhan allweddol i geisio sicrhau hyn am ei fod yn darparu 24% o'r holl gyflogaeth a chanddo amrywiaeth sy'n llai ar draws y DU na swyddi'r sector breifat o ran ansawdd swyddi, a'r sector breifat sydd felly'n cynnal y swyddi o ansawdd. Ond cydnabyddir bod yna gyfran sylweddol o swyddi sy'n talu cyflogau isel o fewn y sector gyhoeddus a thwristiaeth, llawer ohonyn nhw'n swyddi rhan amser ar gyfer gwragedd (Ymddiriedolaeth Joseph Rowntree).

Edrychir ar gynaladwyedd fel rhywbeth sy'n defnyddio ynni glân ac yn hyrwyddo 'swyddi gwyrdd' ac, felly, yn annog busnesau i fod yn fwy effeithlon wrth ddefnyddio ynni ac o'r herwydd yn fwy cystadleuol. Ystyrir cynaladwyedd a thwf yn allweddol i sicrhau mwy o lewyrch ac yn ganolog i hynny mae cynyddu enillion.

DU

Mae Sefydliad Amgylcheddol Stockholm, Prifysgol Efrog, a fu'n asesu ôl troed ecolegol Cymru, wedi sefydlu tîm ymchwil yn ddiweddar sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu a chymeriant cynaliadwy, (www.york.ac.uk).

Ewropeaidd/Rhyngwladol

Mae'r UE wedi dadlau o blaid cynhyrchu a chymeriant cynaliadwy er 2003 ac, o dan 'Proses Caerdydd' (sefydlwyd yn 1998), ceisiwyd cynnwys hyn yn rhan o'r broses o lunio polisi cenedlaethol. Prin fu'r llwyddiant am fod y mwyafrif o wneuthurwyr polisïau o'r farn mai amcan sylfaenol economi yw cynyddu'r CMC (cynnyrch mewnwladol crynswth).

Diwygiodd yr UE ei bolisi wedyn i ddatgan bwriad i dorri'r cyswllt rhwng twf economaidd ag amcanion amgylcheddol (2004), ond erys y dybiaeth y gallai twf economaidd barhau yng nghyd-destun disbyddu adnoddau bydeang a thwf y boblogaeth (Strategaeth DC UE 2005).

Yn fwy diweddar cafwyd arwyddion bod llywodraethau cenedlaethol a'r DU yn ail-ystyried swyddogaeth flaenllaw'r rheidrwydd economaidd a thwf economaidd ac yn symud y sylw tuag at fesurau sy'n ymwneud â lles yn hytrach na CMC ac at y posibilrwydd o reoli twf isel neu dim twf o gwbl.

Mae ymchwil yr UE yn nodi'r anhawster o gynnal safonau byw presennol heb wneud newidiadau dirfawr. "Ar gyfer cymdeithas a fyddai'n gymdeithasol gyfiawn erbyn 2050 byddai'n rhaid i economi'r byd i fod pedair gwaith ei lefel bresennol ond byddai rhaid i ni gael gwared ar garbon a materoliaeth hyd at ffactor o 10. Byddai hyn yn golygu newid mewn cymeriant bwyd, mudoledd, tai a nwyddau sy'n defnyddio ynni!!"a bydd rhaid i "gynhyrchwyr a chynnyrch fod yn llawer mwy effeithlon" (Amgylchedd ar gyfer Ewropeaid, Medi 2009, tudalen 9.) .

Mae'r UE nawr (2009/10) yn cefnogi pum dull o weithredu i ddatblygu dangosyddion cymdeithasol ac amgylcheddol i ategu'r CMC er mwyn rhoi ystyriaeth i les, ansawdd bywyd a diraddiad amgylcheddol. Mae'r UE nawr hefyd yn treialu 'Sgorfwrdd Datblygu Cynaliadwy' yn ogystal â 'Mynegai o Bwysau Amgylcheddol' (www.beyond-gdp.eu/).

Ym mis Mai 2010 cyhoeddodd yr UE ei gyngor diweddaraf ar Gynhyrchu a Chymeriant Cynaliadwy 'Gwneud cynhyrchu a chymeriant cynaliadwy'n wirionedd'. Mae'r canllaw 32 tudalen hwn yn ceisio rhoi cymorth i bobl benderfynu sut i sicrhau gwell canlyniadau amgylcheddol. Gellir llwytho'r cyhoeddiad hwn i lawr o www.bookshop.europa.eu/is-bin. Ar gael am ddim o lyfrfa'r UE hefyd.

Arfer

Sylw:

Yn union fel y gwna'r cyflwyniad i'r adran ar Ddatblygiad Cynaliadwy yn gwbl glir, mae'r 'cyfyng gyngor tyfiant' a wynebir gan y Llywodraeth yn dipyn o 'hindrans' cyhyd ag y cysylltir tyfiant a llewyrch â chyfoeth a CMC. Mae'r addewid o gyfoeth a ffyniant economaidd yn 'gynnig' na all yr un Llywodraeth ei diddymu ond, eto, mae'r addewid y gwna'r twf economaidd hwn gynorthwyo'r mwyaf difreintiedig a bregus, ac y bydd manteision yn 'diferu lawr' iddyn nhw, yn ymddangos mor wag ag erioed.

Mae CDCDU wedi ystyried beth ddylai fod yn nodweddion economi gynaliadwy (Jackson, tud.177) ond, wedyn, prin fod angen dweud nad yw'r trawsnewidiad anferth sydd ei angen wedi digwydd hyd yn hyn. Yn y cyfamser ni all arfer da o ran cynhyrchu a chymeriant cynaliadwy wneud mwy na cheisio nodi mentrau sydd i bob pwrpas yn adlewyrchu'r nodweddion hyn yn ogystal ag egwyddorion cynaladwyedd. Nodwyd rhai eisoes yn yr adrannau blaenorol: cynhyrchu a chymeriant o fwyd lleol (marchnad ffermwyr Cymunedau'n Cefnogi Amaeth), mentrau ynni adnewyddadwy, rheoli eco-systemau a bioamrywiaeth, terfynau defnydd o adnoddau ac allyriadau llym (FRAME, ailgylchu, cylchu rhydd ac osgoi gwastraff). Mae'n anodd rhagweld a wna'r arferion hyn ddatblygu i fod yn gwbl arferol.

Mae'r wasgfa credyd, y toriadau diffygion ariannol presennol a'r mesurau llymder a gyflwynir gan Lywodraeth y DU, o dan bwysau'r marchnadoedd arian a'r asiantaethau credyd, yn cadarnhau'r 'ceulannu o'r Wladwriaeth' a ddigwyddodd yn UDA er 2001. Y gobaith yw y gwna preifateiddio gwasanaethau cyhoeddus gynorthwyo i adfywio a sbarduno'r economi a chynyddu gweithgarwch busnes ac y bydd y toriadau diffygion ariannol yn bodloni'r buddsoddwyr bydeang.

Yn y cyswllt hwn mae'r 'Gymdeithas Fawr' yn seiliedig ar hunan gymorth a gwirfoddoli, yn opsiwn polisi na ellir ei anwybyddu am fod hunanreolaeth o lymder yn allweddol i gynnal cydlyniad cymdeithasol.

O safbwynt datblygu cynaliadwy fodd bynnag nid yw'r datblygiadau hyn yn datrys materion bydeang megis disbyddu adnoddau, cyfiawnder cymdeithasol a cholli bioamrywiaeth gynyddol; mae angen ymateb i'r materion hyn o hyd a'r cwestiwn yw nid os ond pryd!

Mae'r adeiladwyr senarios wedi codi'r cwestiwn hwn ac wedi awgrymu bod llywodraethau a chorfforaethau mawrion (yr FTSE350) yn wynebu problemau difrifol, gan fod 50% o'r FTSE350 yn dioddef effeithiau ariannol negyddol o ganlyniad i ddisbyddu adnoddau, newid yn yr hinsawdd a llygredd (ffynhonnell; adroddiad 'Cooperative Asset Management', Observer, 29/8/10, tudalen 36 neu www.guardian.co.uk/business).

Mae Shell wedi amlinellu dau senario penodol:

- dirywiad anhrefnus mewn twf economaidd pan gaiff adnoddau eu hecsploetio nes eu bod yn diflannu, polisi wedyn yn gamweithredol a'r llywodraeth yn troi'n ddiffyndollwr, neu
- trawsnewidiad simsan i batrwm economaidd newydd lle mae'r defnydd o adnoddau yn ochelgar, datrysiadau technolegol wedi'u canfod a llywodraethau ar draws y byd yn cydlynu eu gweithredoedd.

Ymysg y cenhedloedd, os neu pan fydd twf economaidd confensiynol yn edwino, bydd pwysau ar bob sector i osgoi dryllio cymdeithasol pellach a chynnal sefydlogrwydd ac ar yr un pryd osgoi cynnydd mewn anghyfartaledd. Gall yr her hon ddigwydd rhywbryd yn y dyfodol ond mae'r enghreifftiau o gynhyrchu a chymeriant cynaliadwy a nodwyd uchod, sydd i'w gweld yn rhywbeth ymylol ac efallai yn ddibwys ar hyn o bryd, yn debygol o gynnig gwersi y bydd yn rhaid eu harddel a'u defnyddio'n helaeth yn y dyfodol.

Lleol

Cenedlaethol

Mae LlCC, ynghyd â gweinyddiaethau datganoledig eraill, yn cyfrannu at waith CDCDU sydd â swyddfa yng Nghaerdydd. www,sd-commission.org.uk/wales

DU

Mae CDCDU wedi comisiynu nifer o ddarnau o ymchwil a chyhoeddi nifer o adroddiadau; Ailddiffinio Ffyniant, 2003, 'Ffyniant heb Dwf?', 2009. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: enquiries@sd-commission.org.uk.

Ewropeaidd

Llyfryn UE: 'Gwneud cynhyrchu a chymeriant cynaliadwy yn wirionedd', sy'n cymryd 'Meddwl Cylch Bywyd' (MCB/LCT) a'i wneud yn berthnasol i gynnyrch gan edrych ar yr effaith amgylcheddol a'r defnydd o adnoddau o'r deunyddiau crai nes eu bod yn cael eu hailgylchu ac yna eu gwaredu. Defnyddir enghreifftiau megis bylbiau trydan, cewynnau a pheiriannau golchi i esbonio egwyddorion y dull hwn o weithredu. Mae'n berthnasol i lunwyr polisiau, swyddogion pwrcasu, defnyddwyr a busnesau. www.bookshop.europa.eu/is-bin/INTERSHOP

Mae Norwy wedi sefydlu ymddiriedaeth; Green in Practice (GRIP) i hyrwyddo cymeriant a chynhyrchu cynaliadwy.

Rhyngwladol

Mae adroddiadau diweddar (25 Hydref) bod Tsiena, sy'n cynhyrchu 97% o gyflenwad y byd o fwynau prin (y 17 o fwynau sy'n hanfodol ar gyfer cynhyrchu uwch-dechnegol, cynnyrch defnyddwyr a thechnoleg wyrdd), wedi gostwng allforion 72% ac o ganlyniad wedi atgyfnerthu'r pryderon a fynegwyd gan y CDCDU ynghylch prinder mwynau allweddol. Cododd prisiau naw gwaith yr hyn oedden nhw mewn ychydig fisoedd sydd yn gwneud cloddio yn y Gorllewin yn economaidd ymarferol ond ar yr un pryd mae yna bryderon y bydd yna brinder affwysol o'r mwynau hyn yn ystod y pum mlynedd nesaf. Bydd y prinder hwn a'r cynnydd mewn prisiau yn effeithio ar dechnoleg wyrdd megis twrbeini gwynt: mae'n bosib bod angen 6000kg o fwynau prin ar dwrbein sy'n cynhyrchu tair megawatt ar gyfer ei fagnetau. (adroddiad arbennig , Guardian 26 Hydref, tudalen 29).

CASGLIADAU

Mae RhASB yn cydnabod y gall y ddogfen hon fod wedi dyddio cynted ag y bydd wedi'i chyhoeddi am fod polisïau bob amser yn esblygu ac arferion a mentrau arloesol yn dod i'r fei yn gyson. Mae ein gwybodaeth yn brin iawn mewn rhai adrannau.

Felly, rydym yn gobeithio y gwna'r darllenydd werthfawrogi y bydd angen diweddaru'r ddogfen hon yn barhaus.

Gobeithiwn, er gwaethaf neu oherwydd y diffygion, y byddwch yn canfod defnydd i'r cyfarwyddiadur ac y byddwch yn cyfrannu at y diweddariadau cyson. Gobeithiwn ddarparu ail argraffiad yng ngwanwyn 2011.

Edrychwn ymlaen at glywed eich sylwadau ac at dderbyn eich cyfraniadau.

Gallwch gysylltu â ni trwy ein gwefan www.tenp.org.uk

Rh
Am
S